
# SOSIALAETH I'R CYMRY

Robert Griffiths
a Gareth Miles

40c




rhagair gan DAFYDD ELIS THOMAS A.S.

# RHAGAIR GAN DAFYDD ELIS THOMAS, A.S.

Dim ond un peth sy'n waeth na syniadaeth wleidyddol wedi'i hysgaru oddi wrth weithredu, a gweithredu gwleidyddol heb iddo sail syniadaethol yw hwnnw.

Y mae'r cyntaf, trwy wahanu llafur ymenyddol a llafur corfforol yn esgor ar y math ar ddysg ddiwerth a geir yn aml iawn ym Mhrifysgol Cymru; oni bai fod syniadaeth wleidyddol yn gysylltiedig â mudiadau a digwyddiadau gwleidyddol dilys, yna y mae'n "academaidd" yn ystyr waethaf y gair hwnnw.

Ond wedyn, nid yw gwleidydda heb ddealltwriaeth feirniadol o'r gyfundrefn wleidyddol ac economaidd sydd ohoni ddim ond pragmatiaeth ddi-liw a diweledigaeth — athroniaeth druenus "gwladweinwyr" fel Wilson a Callaghan.

Lluniwyd y bamffled hon, **"Sosialaeth i'r Cymry"** gan ddau weithredwr gwleidyddol. Dichon mai **Gareth Miles** yw'r Marcsydd amlycaf sy'n ysgrifennu yn Gymraeg. Ef hefyd yw Trefnydd Cenedlaethol UCAC, yr unig undeb athrawon — yr unig undeb llafur annibynnol, yn wir — â'i bencadlys yng Nghymru. Ymchwilydd llawn-amser i Blaid Cymru yw **Robert Griffiths;** gŵr a wrthododd yn wastad gydnabod bod ffin rhwng dadlennu ffeithiau ac ymgyrchu i'w newid.

Ymosoda eu pamffled ar ddau safbwynt gwleidyddol sydd yr un mor annilys, yn fy marn i, ac a arddelir gan rai Cenedlaetholwyr ar y naill law, a chan rai Sosialwyr ar y llall.

Rhydd her i'r Cenedlaetholwyr hynny sy'n ystyried fod Cenedlaetholdeb yn athroniaeth holl-gynhwysol. Ym marn y Cenedlaetholwyr hynny (y garfan gryfaf ym Mhlaid Cymru, o hyd), y mae'r Genedl, megis y ddelwedd fwrgeisaidd o Dduw, "uwchlaw" gwrthdaro'r dosbarthiadau; tybiant y gellir brwydro dros bolisiau diwylliannol, a thros garfannau ieithyddol sy'n wynebu difodiant, heb roi unrhyw ystyriaeth i'r gyfundrefn economaidd sy'n bodoli. Anwybydda'r agwedd hon hanes "go-iawn" cenhedloedd goresgynedig fel Cymru a'r cysylltiadau hanesyddol rhwng datblygiad gwladwriaethau fel Prydain, eu rôl imperialaidd, a Chyfalafiaeth.

Ond heria'r bamffled hon, yn ogystal, y bobl hynny ar y Chwith sy'n gwadu, mewn modd lawn mor anhanesyddol, fodolaeth cenedl y Cymry a phroblemau diwylliannol; sosialwyr sy'n arddel economiaeth anynol gan wthio "dosbarth-gweithiol" haniaethol ac anhanesyddol i ryw wawrddydd sosialaidd hardd — pryd, heb os nac oni bai, y deil pyllau glo Cymru i gael eu rhedeg o *Hobart House* yn Llundain. Yr enghraifft waethaf o'r modd y diradicaleiddiwyd y Mudiad Llafur — ac eithrio rhai gwlatgarwyr prin —

yw agweddau adweithiol (*Laura Norder*, yn Saesneg) ei arweinwyr tuag at Gymdeithas yr Iaith Gymraeg.

Ysbrydolir y bamffled hon gan yr argyhoeddiad mai dim ond fel Cymry y gallwn ni, Cymry Cymraeg a di-Gymraeg, ein rhyddhau ein hunain. Di-ystyr yw rhyddid gwleidyddol heb ryddid economaidd, a gall rhyddid diwylliannol y Cymry hyrwyddo eu rhyddid economaidd, ac ymelwa'n ddirfawr o'i blegid.

Ers amser maith, deallwyd y cyswllt hanfodol rhwng Sosialaeth a'r Broblem Genedlaethol gan Farcswyr ac eraill yn y Trydydd Byd, a bellach y mae mwy a mwy o aelodau cenhedloedd gorthrymedig Gorllewin Ewrop a Gogledd yr Amerig yn ei amgyffred. Arddelir Sosialarth gan fudiadau cenedlaethol led-led y byd oherwydd iddynt sylweddoli mai dyna'r unig gyfrwng ideolegol a alluoga weithwyr cenedl i feddu a rheoli ei hadnoddau. Dyna'r unig ffordd i roi pen ar dra-arglwyddiaeth Cyfalafiaeth estronol.

O'r diwedd, cymhwysir dadansoddiad llawer o Sosialwyr a Chenedlaetholwyr y Trydydd Byd ar gyfer Cymru; o'r diwedd, ymddengys yma y math ar ysgrifennu grymus a fu'n gymaint o ddylanwad yn Québec yn y Chwedegau. Rhan o'r frwydr fyd-eang yn erbyn gorthrwm diwylliannol ac economaidd yw brwydr y dosbarth-gweithiol yng Nghymru a'r deallusion sy'n deyrngar iddo. Rôl hanesyddol a chyfrifoldeb "radicaliaid" Cymru (defnyddir y gair yr un ffunud ag y gwneir gan y Chwith Newydd Americanaidd, nid yn ei ystyr Gymreig, mân-fwrgeisaidd) yw cyfranogi yn yr wrth-ymwybyddiaeth a geir y dwthwn hwn y tu fewn i Gyfalafiaeth y Gorllewin.

Dylai'r angen am fudiad torfol y tu allan i San Steffan i hyrwyddo newidiadau cymdeithasol fod yn berffaith amlwg i'r neb a wrandawodd ar y rhaglen "*Yesterday in Parliament*". Ond y mae'n amhepgorol fod mudiad o'r fath, boed yng Nghymru neu'n unrhyw wlad arall yng Ngorllewin Ewrop, yn berchen ar ddadansoddiad ideolegol pendant a digymrodedd nad yw'n cael ei ddychrynu gan groes-dueddiadau cyfundrefn gyfalafol fodern sy'n mynnu dal ei gafael ar yr economi a'r fframwaith-uwch diwylliannol. Y mae'n rhaid i'r syniadaeth a eill gynnal mudiad radicalaidd o'r fath hannu o'r frwydr a'r gwrthdaro rhwng y mudiadau democrataidd hynny sy'n cynrychioli deheadau gweithwyr Cymru, ar y naill law, a'r rheini sydd, ar y llaw arall, yn cefnogi'r *status quo* yn gwbl agored, neu'n ei gynnal trwy gynnal sefydliadau'r dosbarth llywodraeth yng Nghymru — er enghraifft, y BBC. Y maent hwy'n gwarchod ac yn cadarnhau cyfundrefn sydd yn gorthrymu Cymru, mewn amryfal ffyrdd, ac sydd hefyd yn ymwela'n sylweddol ar gyni a newyn miliynau o'n cyd-ddynion yn y Trydydd Byd.

Wrth ymgyrchu dros ein rhyddid yng Nghymru, rhaid inni ymwrthod â symudiadau a thueddiadau di-reswm y "farchnad rydd"; dylem hefyd ymochel rhag mynd yn ysglyfaeth i gyfundrefn fiwrocrataidd

a gorthrymus fel ag a geir yn rhai o'r gwledydd "Sosialaidd".

Dengys y gefnogaeth sylweddol a gafodd y Toriaid yng Nghymru'n ddiweddar fod yr hen Radicaliaeth Gymreig fondigrybwyll wedi trengi. Ein pennaf angen ar hyn o bryd, yn y Mudiad Cenedlaethol ac ar y Chwith, yw dogn helaeth o hunan-feirniadaeth iach. Oherwydd fod **"Sosialaeth i'r Cymry"** yn ddadansoddiad cignoeth o'n sefyllfa heddiw, 'rwyn falch iawn o gael rhoi sêl fy mendrith ar y bamffled. Ond oni bai ei bod yn ysgogi ac yn hyrwyddo datblygiadau gwleidyddol a diwydiannol newydd, yn ofer y'i cyhoeddwyd. Ofer hefyd, oni bai fod y traethawd hwn yn peri i nifer cynyddol o gyd-wladwyr yr awduron sylweddoli mai trefedigaeth fewnol yw Cymru, ac nad oes obaith na dyfodol iddi oni bai fod ei phobl yn ymroi i danseilio a dymchwel y gyfundrefn gyfalafol ym Mhrydain a thrwy'r Byd.

DAFYDD ELIS THOMAS
Dolgellau, mis Gorffennaf, 1979.

# SOSIALAETH I'R CYMRY

## Rhagarweiniad

Ers canrif o leiaf y mae pobloedd y byd wedi meddu medrau a'u galluogai i gymhwyso adnoddau naturiol y ddaear er dileu pob cyni ac ymron i bob clefyd a haint. Yn lle hynny, camddefnyddiwyd galluoedd corfforol a meddyliol y ddyniolaeth gan gyfundrefn economaidd adweithiol. Y mae'r gyfundrefn hon, Cyfalafiaeth, trwy sancteiddio eiddo preifat, trwy hyrwyddo canoli mewn rheolaeth a pherchenogaeth diwydiant a chyfalaf, a thrwy gyfrwng y cyflawnder o rwymiadau cymdeithasol, diwylliannol a chyfreithiol a luniodd, yn rhwystro pob ymgais i greu byd heb gyni, gormes na rhyfel.

Wrth gwrs, y mae'n amlwg nad yw gwlad fechan Orllewinol fel Cymru'n dioddef yr un adfyd cymdeithasol ac economaidd a rhai rhannau eraill o'r byd. Serch hynny, hyd yn oed yma ceir profion di-amwys mai cyfundrefn lesteiriol, ddi-sens a gwrth-ddynol yw Cyfalafiaeth. Er enghraifft, trwy gydol y saithdegau, dynodwyd o leiaf un tŷ o bob deg yng Nghymru yn "anaddas" ac yr oedd dros 40,000 o bobl ar restrau disgwyl y Cynghorau; ond ar yr un pryd ceid miloedd o dai'n ddi-ddeiliad, llu o dai haf drudfawr yn cael eu codi, blociau uchel o swyddfeydd moethus ochr yn ochr â slymiau, mwy na 15,000 o weithwyr adeiladu yn segur, a miliynau o friciau'n cael eu pentyrru.

Y mae'r hualau cyfreithiol, ariannol a gwladwriaethol a luniwyd gan gyfundrefn economaidd orffwyll a chreulon yn ein rhwystro rhag datrys un broblem trwy ddatrys un arall. Byddai meddiannu tŷ haf yn "anghyfreithlon"; byddai prynu bloc o swyddfeydd gwag gydag arian cyhoeddus yn golygu talu "iawndal" aruthrol i'r perchnogion; byddai gwneud defnydd buddiol o adnoddau ac o lafur sy'n segur y tu hwnt i gyrhaeddiadau ariannol mentrau cyhoeddus neu breifat; gallai'r tir fyddai'n angenrheidiol "berthyn" i rhyw *landlord* neu stâd gefnog. Felly deil segurdod gorfodol a thai gwael i anharddu cymdeithas, pryd y gallai'r naill glefyd iachau'r llall.

O gymryd golwg fyd-eang ar bethau, gwelwn fod defnyddiau crai ein planed — olew, mwynau, coed etc. — yn cael eu prysur ddisbyddu. Er mwyn atal trallod dychrynllyd i genedlaethau'r dyfodol, y mae'n amlwg bod yn rhaid cynllunio'r defnydd a wneir o'r adnoddau hyn, ynghyd â darparu dulliau o'u hadnewyddu, neu o greu adnoddau newydd yn eu lle, ar raddfa ryngwladol. Ni ellir dychmygu'r corfforaethau amlwladol na'r gwladwriaethau sy'n gweini arnynt yn ymgymryd â'r dasg enfawr hon, gan eu bod hwy'n wastadol am y gorau â'i gilydd i ysbeilio er mwyn chwyddo'u helw. Dim ond cydweithrediad rhwng holl genhedloedd y byd, a hwythau'n arddel agweddau sosialaidd at gloddio, gwarchod, defnyddio a dosbarthu adnoddau crai, a fedr ddatrys y broblem hon — y fwyaf, ond odid, sy'n wynebu'r ddynoliaeth.

Ymchwydd ac yna'r dirwasgiad — dyna hanes Cyfalafiaeth erioed. Mae'n cynhyrchu golud ac yn cynnal tlodi, yn gor-gynhyrchu'n fwriadol ac yn peri prinder, yn ymwthio am farchnadoedd ac yn esgor ar gystadleuaeth sy'n arwain, o bryd i'w gilydd, i ryfel.

Ond sut mae tanseilio'r gyfundrefn hon? Sut y gellir difodi Cyfalafiaeth, fel bod ffyniant cyffredinol yn disodli angen, sicrwydd a diogelwch yn disodli ansefydlogrwydd, a chyd-weithrediad yn disodli cystadleuaeth? Beth roddwn ni yn lle Cyfalafiaeth? Sut mae cychwyn a sut mae trefnu?

Cyn inni benderfynu i ble y dymunwn fynd, rhaid inni geisio deall y gymdeithas a etifeddwyd gennym a deall sut y'i crewyd. Mewn geiriau eraill, y cam cyntaf i'r neb a fynn adeiladu'r dyfodol yw astudio Hanes a dysgu'r gwersi priodol.

# Y DULL MARCSAIDD O DDEHONGLI HANES

Dyma grynodeb byr o brif ddeddfau Hanes, yn ôl Karl Marx:

## 1. Y Ddeddf Sylfaenol

Y mae dyn erioed wedi ymdrechu i ychwanegu at ei ryddid: hanfod yr ymdrech honno yw'r rheidrwydd sydd arno i feistroli amgylchiadau materol ei fodolaeth. Hon yw Deddf Sylfaenol Hanes.

Ni all y ddynoliaeth fod yn rhydd ond i'r graddau nas cyfyngir gan angenrheidiau materol bywyd. Y mae cynnydd mewn rhyddid, felly, i unigolion yn ogystal ag i gymdeithasau, yn dibynnu ar eu gallu i rymuso ac i ehangu eu rheolaeth ar eu hamgylchfyd. Yn y gorffenol, golygodd hyn, yn ddi-eithriad, gynyddu cynnyrch, ond ni allwn fod yn sicr a fydd cynyddu cynnyrch yn bosibl ai peidio, neu hyd yn oed yn angenrheidiol, bob amser yn y dyfodol.

## 2. Deddf y Rhyfel Dosbarth

I egluro'r ddamcaniaeth allweddol-Farcsaidd hon, ni ellir gwell na dyfynnu o gyflwyniad W.J. Rees i'w drosiad Cymraeg o'r **Maniffesto Comiwnyddol:**

*"Ar adeg arbennig yn hanes cymdeithas fe ymrannodd cymdeithas yn nifer o ddosbarthiadau economaidd a'u buddiannau yn gwrthdaro â'i gilydd.*

*O'r sail hanesyddol a chymdeithasol hon y cyfododd y rhyfel dosbarth. O safbwynt y rhyfel hwn, prif amcan y dosbarth llywodraethol ydyw cadw'r llywodraeth yn ei ddwylo ei hun; fe wrthwyneba gyfnewidiadau cymdeithasol, fe bair i ddiwylliant a chynnyrch sefyll fwyfwy yn eu hunfan, ac fe ddibynna fwyfwy ar rym arfau i sicrhau ei awdurdod.*

*Prif amcan dosbarth darostyngedig yw ei ryddhau ei hunan o'i gaethiwed i'r dosbarth llywodraethol a'i sefydlu ei hunan yn ddosbarth llywodraethol newydd: fe gefnoga newidiadau mewn diwylliant a chynnyrch, fe fynna hawliau democrataidd, ac o bryd i'w gilydd fe gynhyrfa ddiwygiad gwleidyddol neu chwyldro cymdeithasol. Cyfnod y chwyldro ydyw'r cyfnod pan syrthia'r grym gwleidyddol o ddwylo'r dosbarth llywodraethol i ddwylo'r dosbarth darostyngedig — cyfnod o argyfwng dwfn pan siglir yr hen gymdeithas i'w gwraidd, a chyfnod o anrhefn cyn llwyddo o'r dosbarth llywodraethol newydd i ail-lunio'r gymdeithas ar gynllun sy'n fwy cyson â'i ewyllys ei hunan."*

Mynn Marx a'i ddisgyblion, felly, mai'r ffactorau y mae'n rhaid eu hamgyffred os ydym am ddeall unrhyw phenomen hanesyddol, boed chwyldro, neu ddiwygiad cymdeithasol, newid gwleidyddol neu weithredoedd gwleidydd unigol, nofel, drama neu athrawiaeth arbennig, yw dulliau cynhyrchu'r cyfnod a nerth cymharol a chyd-berthynas y gwahanol ddosbarthiadau.

Nid yw hyn yn golygu mai dibwys yw ffactorau eraill megis daearyddiaeth, hinsawdd, cenedligrwydd, crefydd, dawn neu ddiffyg dawn arweinyddion — dim ond mai'r ffactorau materol a enwyd yw'r rhai llywodraethol. Er enghraifft, mae'n llwyr amhosibl iawn-ddeall unrhyw agwedd arwyddocaol ar hanes Groeg a Rhufain os anwybyddir y ffaith bod eu cyfundrefnau economaidd wedi eu seilio ar gaethwasiaeth, neu grefydd a diwylliant ar gyfandir Ewrop yn yr Oesoedd Canol heb wybod rhywbeth am amaethyddiaeth ffiwdalaidd.

Y mae'n bwysig inni beidio â chymhwyso'r ddysgeidiaeth hon mewn ffordd beiriannol a haearnaidd, a chofio, er mai cwlwm o amgylchiadau a datblygiadau materol sy'n creu ymwybyddiaeth dyn, fod honno yn ei thro yn gallu ymyrryd â'i hamgylchiadau materol i'w newid.

# FFIWDALIAETH

"Ffiwdaliaeth" yw'r enw a roddir ar y drefn gymdeithasol a ddisodlodd y drefn a elwir yn "genhedlig" neu "lwythol". Datblygodd y drefn ffiwdalaidd o'r drefn genhedlig trwy i'r dosbarth uchelwrol, y "teulu" milwrol, lwyddo i ddarostwng gweddill y llwyth i safle israddol a chreu cyfundrefn wladwriaethol fyddai'n cyfoethogi'r dosbarth hwnnw ar draul rhelyw'r gymdeithas. O dan

y drefn ffiwdalaidd, aeth y tiroedd oedd gynt yn eiddo i'r llwyth cyfan yn eiddo'r arglwydd a'i dylwyth, a diraddiwyd y gwŷr rhydd yn daeogion a orfodid dan boen cosbedigaeth i lafurio ar dir eu meistri yn gyfnewid am yr hawl i weithio cyfran o'r wythnos ar eu rhandiroedd bychain eu hunain.

Er gwaethaf ymdrechion Llywelyn ap Iorwerth a Llywelyn ap Gruffydd, ni ddatblygwyd cyfundrefn ffiwdalaidd gyflawn yng Nghymru. Penaethiaid llwythol oedd y ddau hyn a holl dywysogion eraill Cymru, nid teyrnedd fel brenhinoedd Ffrainc a Lloegr. Tueddiad llawer o genedlaetholwyr yw gweld rhagoriaethau a ffaeleddau'r gymdeithas Gymreig yn y cyfnod hwn, o'i chymharu â'r hyn a geid yn Lloegr, fel nodweddion hanfodol Gymreig, e.e., y dull Cymreig o rannu tir ymhlith yr holl feibion; agwedd "ryddfrydig" Cyfraith Hywel at ferched, ysgariad a chosbi troseddwyr; parodrwydd y "genedl" gyfan — h.y., y llwyth — i ymladd yn erbyn y sawl a geisiai ei goresgyn, a'r diffyg undod rhwng y gwahanol "genhedloedd" Cymreig ar adegau tyngedfennol yn eu hanes.

Y mae'n bwysig sylweddol nad nodweddion arbennig i'r Cymry yw'r rhain ond nodweddion pob cymdeithas lwythol neu genhedlig. Yn ôl Gwynfor Evans, "gwlad o wladwriaethau bach" oedd Cymru yn y cyfnod dan sylw. Mae hyn yn gamarweiniol, gan nad oedd gwladwriaeth yn bod o dan y drefn lwythol.

Cyfundrefn yw'r wladwriaeth i alluogi un dosbarth i ysbeilio dosbarthiadau darostyngedig, a'r arfau a ddefnyddir yw'r fyddin, y polîs a'r gyfraith.

Yng Nghymru hyd at 1282, y "genedl", neu'r llwyth, oedd biau'r tir, nid y dosbarth uchelwrol — dyna pam y'i rhennid ymhlith yr holl feibion; a chyfundrefn wirfoddol a wasanaethai'r gymdeithas yn ei chrynswth oedd y gyfraith, fel y dengys Mr. Dafydd Jenkins yn ei gyfrol **Cyfraith Hywel Dda:**

*"I'r gyfraith genhedlig, nid sefydliad o eiddo'r wladwriaeth ar gyfer gweinyddu'r rheolau oedd llys barn; fe allai fod yn gynulliad o drigolion yr ardal (neu rai ohonynt) i wneud trefniadau ar gyfer pob math o faterion; neu fe allai ymddangos wrth i ddynion gytuno o wirfodd fod rhyw ŵr hyddysg yn y gyfraith yn penderfynu'r anghydfod a gododd rhyngddynt."*

Nid oedd byddin, fel y cyfryw, yn bod yn y Gymru honno; y bobl oedd y fyddin — *"le peuple armé"*, chwedl y chwyldroadwyr Ffrengig. Ac adlais oedd safle gymharol freintiedig y ferch yn y gymdeithas Gymreig o hen gomiwnyddiaeth y bywyd llwythol ar ei wedd fwyaf cyntefig yn y cyfnod cyn-hanesyddol.

Yr oedd y gyfundrefn ffiwdalaidd yn anrhaethol fwy gormesol, felly, na'r drefn lwythol. Ond yr oedd hefyd yn anrhaethol fwy cynhyrchiol a chyfoethocach, a dyna pam, yn bennaf, y trechwyd y Cymry gan Edward I a'i gydfarwniaid. Pan ddigwyddodd hynny, yr oedd y gyfundrefn ffiwdalaidd ei hun ar y goriwaered, ac felly ni ddatblygodd ffiwdaliaeth Gymreig yn sgil y Goresgyniad ychwaith. Yn lle hynny, camodd y wlad ymlaen i ris nesaf datblygiad hanesyddol Gorllewin Ewrop, sef ffermio cyfalafol, drwy i wŷr rhydd y llwythau fynd yn denantiaid i'w penaethiaid.

# CYFALAFWYR SEISNIG NEU SEISNIGEDIG

Cynnwys pob cyfundrefn gymdeithasol hadau ei dinistr ei hun. Aur, arian ac efydd oedd hadau'r gyfundrefn newydd a ddisodlodd ffiwdaliaeth — aur, arian ac efydd y marsiandiwyr a'r diwydiannwyr a ffynnai oherwydd sefydlogrwydd y drefn ffiwdalaidd.

Mewn gwlad ar ôl gwlad, deilliodd rhyfel cartref o'r anghydfod rhwng y dosbarth llywodraethol tir-feddiannol, ar y naill law, a'r fwrgeisiaeth oludog, ymddyrchafol, ar y llall. Dyna achos Rhyfel Cartref Lloegr yn yr unfed ganrif ar bymtheg a Chwyldro Mawr Ffrainc yn 1789. Yn ôl Marx, dyna sut y bu i'r fwrgeisiaeth chwarae rhan flaengar a chwyldroadol yn natblygiad hanes. Fel hyn y disgrifiodd ef y modd y trawsnewidiwyd cymdeithas gan y fwrgeisiaeth fuddugoliaethus:

*"Y mae'r bwrgeiswyr, lle yr enillasant reolaeth, wedi dileu pob perthynas ffiwdal, batriarchaidd, ac eidylaidd. Heb unrhyw drugaredd, torasant yn rubanau yr amrywiol rwymau ffiwdalaidd a glymai dynion wrth eu "meistri naturiol", ac ni adawsant rhwng dyn a dyn unrhyw rwymyn ond hunanfudd noeth, "rhwymyn arian parod" calongaled. Ganddynt hwy fe foddwyd gorfoledd dwyfol pob tân crefyddol, pob brwdfrydedd gwrol, a phob sentimentaliaeth philistaidd, yn nyfroedd rhewllyd cyfrifon masnachol hunanol. Troesant urddas y person yn werth cyfnewid, ac yn lle'r rhyddfreintiau breiniol, haeddiannol, dirif, sefydlasant* **un** *rhyddid, sef rhyddid masnach digydwybod. Mewn gair, yn lle dull o ecsploitio a wyngalchwyd gan hud a lledrith gwleidyddiaeth a chrefydd, sefydlasant ddull agored, uniongyrchol, noeth a digywilydd."*

Nid yn anaml y dyddiau hyn clywir Cymry deallus a diwylliedig yn sôn am y "dosbarth canol Cymraeg" a'i ddylanwad melltigedig neu fendigedig ar yr ysgolion Cymraeg/y ddrama yng Nghymru/Darlledu/yr Iaith/Plaid Cymru . . . ac yn y blaen.

Y gwir yw, wrth gwrs, nad oes gan Gymru heddiw, ac na fu ganddi erioed, ddosbarth canol — *bourgeoisie* — o'r iawn ryw. Er mwyn dangos yn eglur i Gymru gael ei hamddifadu'n llwyr o'r fath ddosbarth, ni ellir gwell na dyfynnu ychydig frawddegau o ddisgrifiad enwog Marx ohono, fel y'i ceir yn **Maniffesto Comiwnyddol** (1848):

*"Y mae'r bwrgeiswyr, yn ystod eu rheolaeth brin ganmlwydd oed fel dosbarth, wedi creu galluoedd cynhyrchu mwy enfawr ac aruthrol na'r holl genhedlaethau cynt gyda'i gilydd. Harneisio galluoedd natur, peiriannaeth, cymhwyso cemeg at ddibenion diwydiant ac amaethyddiaeth, llongwriaeth ager, rheilffyrdd a theligraffau trydan, gwrteithio darnau cyfain o'r byd, addasu afonydd at longwriaeth, swyno poblogaethau cyfain allan o'r ddaear . . ."*

Y mae'n berffaith amlwg i'r neb a ŵyr y mymryn lleiaf am hanes ein gwlad na feddodd Cymru erioed ar ddosbarth brodorol o'r fath. Petai, buasai ei hanes diweddar wedi bod yn bur wahanol.

Buasai bwrgeiswyr Cymreig hunan-ymwybodol a hunan-hyderus wedi bod wrthi'n egniol drwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn codi rhagfuriau ieithyddol, diwylliannol, gwleidyddol ac economaidd o amgylch Cymru, i'w gwarchod fel marchnad a chwarel defnyddiau crai ac adnoddau dynol iddynt hwy eu hunain. Yn ganlyniad i hynny, buasai dyfodol yr iaith Gymraeg mor ddiogel â dyfodol unrhyw iaith Ewropeaidd; buasai cyfraniad Cymru i'r gwareiddiad Ewropeaidd modern gyfuwch ag eiddo gwledydd bychain eraill megis Denmarc, Norwy a Siecoslofacia; buasai gennym senedd a myrdd o sefydliadau cenedlaethol ac iddynt fri rhyngwladol — Prifysgolion, Amgueddfeydd, Orielau a Chanolfannau Gwyddoniaeth a Thechnoleg — yn lle dyrnaid o erthylod Prydeinllyd, anghyfiaith sydd prin yn teilyngu'r ansoddair "taleithiol".

Yn bwysicach na dim, buasai bwrgeisiaeth Gymreig wedi creu proletariat Cymreig a fuasai'n gryfach ac yn fwy hyderus na'r un sy'n bod heddiw gan na fuasai, y mae lle i gredu, wedi ei ysigo cymaint gan y Dirwasgiad a chan Imperialaeth. O'r herwydd, buasai'r frwydr rhwng bwrgeisiaeth Gymreig a Chymraeg a dosbarth gweithiol mwy unol a hyderus wedi bod yn finiocach ac yn amlycach ei goblygiadau na'r gwrthdaro amwys ac ysbeidiol a geir yn y Gymru sydd ohoni. Ac yn hytrach na bod yn faterion hanfodol bwysig sy'n mynnu cymaint o'n sylw ac o'n hegnion, ni fuasai cenedlaetholdeb a'r 'broblem genedlaethol' yn bod, ac eithrio fel arfau yn nwylo'r dosbarth llywodraethol Cymreig.

Fel y bu pethau, yr oedd aelodau'r dosbarth cyfalafol a ddaeth i fodolaeth yng Nghymru un ai'n Saeson — sylfaenwyr y diwydiant haearn yn fwyaf arbennig — neu ynteu, fel llawer o berchnogion y pyllau glo, yn Gymry a ymseisnigodd yn llwyr o ran iaith ac o ran teyrngarwch cenedlaethol. Y mae'n wir i rai o'r cyfalafwyr Rhyddfrydol chwarae, dro, gyda chynlluniau ar gyfer Ymreolaeth, ond chwedl Saunders Lewis, nid oedd eu cenedlaetholdeb hwy'n ddim angen na "hobi awr-hamdden dynion blonegog, llwyddiannus."

Ffynnai buddiannau dosbarthol y Cyfalafwyr Cymreig dan nawdd y Wladwriaeth Brydeinig a'r Ymerodraeth (yn hynod felly ar ôl 1880, pan "agorwyd" yr Affrig) a gwarchodai'r sefydliadau imperialaidd hyn eu buddsoddiadau hwy lawn mor ddiogel â buddsoddiadau Cyfalafwyr Lloegr. Glo ager Cymru oedd tanwydd y *Royal Navy*. Nid oedd reswm yn y byd pam y dylai Cyfalafwyr Cymru geisio creu eu marchnad eu hunain a chodi rhagfuriau ieithyddol a gwladwriaethol o'i chylch i'w hamddiffyn.

# Y FAN-FWRGEISIAETH GYMREIG

Mân-fwrgeiswyr, nid bwrgeiswyr, oedd arweinwyr y Cymry yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg; ffermwyr, siopwyr a chrefftwyr, nid buddsoddwyr, diwydiannwyr ac *entrepreneurs*. Creodd y fân-fwrgeisiaeth hon yr hyn sy'n cyfateb yng Nghymru i Ryfel Cartref Lloegr, sef y Diwygiad Methodistaidd. Sefydlodd yr Anghydffurfwyr achosion crefyddol democrataidd ym mhob rhan o Gymru — ond nid oeddynt â'u bryd ar gael Senedd ar dir Cymru. Nid Cymry balch, gwlatgarol mo Diwygwyr fel Howell Harris, Williams Pantycelyn, Ann Griffiths, Thomas Jones Dinbych a Charles o'r Bala, ond Prydeinwyr parchus, gwasaidd a gor-grefyddol. Nid chwyldro cenedlaethol Cymreig mo'u heiddo hwy ond chwyldro crefyddol, unigolyddol, Seisnig ei ddiwinyddiaeth a'i ysbrydoliaeth. Pregethent ac ysgrifenent eu hemynau yn Gymraeg, nid o gariad ati, ond oherwydd mai hi oedd yr unig iaith a ddeëllid gan y Werin.

Nid trwy herio Lloegr y gofalai'r dosbarth hwn am ei fuddiannau ac yr hyrwyddai ei amcanion cymdeithasol, gwleidyddol a chrefyddol, ond trwy ymseisnigo ac ymbrydeinio fwyfwy; nid trwy sefydlu gwladwriaeth annibynnol Gymreig ond trwy swatio'n glosiach yng nghesail y Wladwriaeth Brydeinig. Ac yn dâl am ei deyrngarwch, ac am arwain y Werin Gymraeg anhydrin ar hyd yr un llwybrau taeogaidd, fe'i gwobrwywyd â dyrnaid o fân-freiniau, mân-swyddi a mân-gonsesiynau ym myd crefydd, addysg a diwylliant. Cyflog pitw ond haeddianol i fân-fwrgeisiaeth.

Y cyntaf o amcanion hanesyddol y dosbarth hwn oedd sicrhau'r hawl i'w aelodau gynnal eu cyfarfodydd crefyddol heb ymyrraeth nag erledigaeth o du'r "werin ddi-feddwl dan arweiniad ei hysweiniaid a'i chlerigwyr a'i swyddogion gwladol", chwedl R. T. Jenkins. Yr ail oedd dwyn teyrngarwch y werin honno oddi ar Eglwys Loegr a throi Cymru'n wlad Ymneilltuol.

Trydydd amcan hanesyddol y fân-fwrgeisiaeth Gymreig oedd darparu cyfundrefn addysg fyddai'n seisnigo ac yn prydeinio ei phlant yn drylwyr, er mwyn iddynt allu manteisio'n llawn ar freiniau sifil a gwleidyddol y Wladwriaeth Brydeinig ac ar y myrdd gyfleoedd i ymgyfoethogi ac i "ddod ymlaen yn y byd" yr esgorai Lloegr arnynt bron yn feunyddiol yn nyddiau anterth y Chwyldro Diwydiannol a'r Ymerodraeth. Yn eironig ddigon, neu'n naturiol ddigon, efallai, **Brad y Llyfrau Gleision** (1848) a ddeffrodd awch anniwall yr Anghydffurfwyr Cymreig am addysg Seisnig. Y mae'n wir, fel y dengys Frank Price Jones yn ei lyfr **Radicaliaeth a'r Werin Gymreig** i'r Brad eu radicaleiddio a chynnau tannau gwlatgarol yn eu mynwesau am y tro cyntaf erioed, ond fe ddaliai llawer mai canlyniad pwysicaf yr holl helynt oedd fod yr Anghydffurfwyr a'r Werin wedi mynd ati'n egniol o'r cyfnod hwnnw hyd at y dydd heddiw

i ddarparu ar gyfer plant Cymru, o'r ysgol gynradd hyd at y Brifysgol, y feddyginiaeth addysgol a argymellwyd gan awduron y Llyfrau Gleision.

Pan ddaeth y Chwyldro Diwydiannol i Gymru, esgorodd y gweithiau haearn, y pyllau glo a'r melinau gwlân ar ddosbarth gweithiol trwyadl Gymraeg; ond Saeson, neu Gymry seisnigedig oedd y landlordiaid, y cyfalafwyr, y milwyr, swyddogion y Wladwriaeth ac offeiriaid yr Eglwys Sefydledig.

Deallai'r dosbarth llywodraethol fod perygl i arwahanrwydd diwylliannol a chenedlaethol y Cymry ffyrnigo'r gwrthdrawiadau dosbarthol ynglŷn â landlordiaeth, cludiant bwyd, tollau, y Siartr a chyflogau ac amodau gwaith. Ceir tystiolaeth helaeth mewn dadleuon seneddol, adroddiadau i'r Cyfrin Gyngor, Adroddiadau Comisiynau Brenhinol ac mewn erthyglau golygyddol yn "The Times" fod y Sefydliad Seisnig yn eiddgar dros ben i ddifodi'r iaith Gymraeg a thrwy hynny ddileu cenedligrwydd y Cymry.

Bu i'r mân-fwrgeiswyr Cymreig ran hanfodol bwysig yn y gwaith o lethu eu hiaith eu hunain. Hwy, gan fwyaf, oedd aelodau'r pwyllgorau addysg a'r byrddau rheolwyr, a hwy oedd yr athrawon a waharddodd y Gymraeg yn yr ysgolion. Chwedl a ledaenwyd gan haneswyr gwlatgarol yw fod Deddf Addysg 1870 wedi gorfodi'r rhain i esgymuno'r Gymraeg. Y gwir yw iddynt wneud hynny oherwydd: (i) na chynhwysid y Gymraeg yn y Codau Addysg Gwladwriaethol rhwng 1861 a 1890, a seiliwyd ar egwyddor anwar "payment-by-results"; a (ii) beth bynnag am hynny, edrychai'r rhan fwyaf o'r arweinwyr cymdeithasol hyn ar y Gymraeg fel arwydd o israddoldeb neu fel *patois* ddiwerth. Ys dywedodd yr Arolgydd Ysgolion W. Edwards wrth Gymdeithas yr Iaith Gymraeg (h.y., y gyntaf) yn 1899:

*"Byddai athro caredig, o bryd i'w gilydd, yn calonogi ei ddisgyblion gydag ychydig eiriau o Gymraeg pan ddeuent i'r ysgol y waith gyntaf, i hyrwyddo eu hufudd-dod i'w orchymion, neu'n ddiweddarach i'w cynorthwyo i oresgyn rhyw anhawster; ond fe dybiai ei fod yn cyflawni ei swydd yn y modd mwyaf trwyadl pan gyfyngai mor llwyr ag oedd bosibl ar y defnydd a wneid o'r fam-iaith. Y mae'n gydnabyddus i ddulliau arbennig gael eu mabwysiadu i rwystro'r plant rhag siarad Cymraeg â'i gilydd tra yn yr ysgol.*

*Gellir esgusodi annigonolrwydd rhyfeddol y gydnabyddiaeth a gai'r Gymraeg yn ysgolion Cymru gan ei fod yn deillio o ddiymadferthedd yr athrawon yn eu hymwneud â chyfundrefn ddi-gydymdeimlad. Ac nid canlyniad ydoedd hyn i bolisi bwriadol ar ran yr awdurdodau yn gymaint ag i'r ffaith na ddeuai galw am ystyriaeth arbennig o Gymru ei hun . . . Deil y Saesneg yn brif gyfrwng addysg hyd yn oed yn yr ardaloedd Cymraeg."*

Pedwerydd amcan yr Anghydffurfwyr Cymreig oedd dryllio iau ormesol y meistri tir, a'r pumed, y chweched a'r seithfed oedd disodli'r rhain fel arweinwyr gwleidyddol y Werin, difreinio'r Eglwys Sefydledig estronol yng Nghymru, a chael cyfranogi i'r raddfa lwyraf bosibl yn llywodraeth a gweinyddiad y Deyrnas a'r Ymerodraeth. 'Roedd y pedwar amcan hyn ynghlwm yn

dynn iawn yn ei gilydd, ac fe'u cyflawnwyd oll, ac eithrio'r chweched, rhwng etholiad cyffredinol 1868 a diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn 1922, megis coron — un lipa iawn erbyn hynny — ar yr holl ymgyrchu, cafwyd y Datgysylltiad.

A dyma Gymru'n genedl gyflawn unwaith eto, yn ôl rhai haneswyr! Eironi chwerwaf 1922 yn hanes y fân-fwrgeisiaeth Anghydffurfiol oedd fod y cyfnod pan wireddwyd ei dyheadau dyfnaf — prifweinidogaeth Lloyd George a'r Datgysylltiad — hefyd yn gyfnod o newidiadau pell-gyrhaeddol a fu'n foddion i ysigo'i seiliau economaidd yng ngefn gwlad Cymru ac i ddryllio ei dylanwad gwleidyddol yng nghymoedd y De.

## Ymwrthod â Phrydeindod

Nid tan 1925, pan sefydlwyd y Blaid Genedlaethol Gymreig y cefnodd carfan o'r fân-fwrgeisiaeth Anghydffurfiol Gymreig ar deyrngarwch Prydeinig, traddodiadol eu dosbarth. Nid yw'n syn mai deallusion oedd aelodau amlycaf a mwyaf dylanwadol y garfan fechan hon, gan mai'r cyfryw rai yn unig yn y cyfnod hwnnw allai ganfod rhywfaint mwy am orffennol eu cenedl nag a ddatgelid gan y gyfundrefn addysg wladwriaethol.

Araf fu twf y blaid newydd am y rhesymau canlynol:

(i) Trylwyrdeb ymdreiddiad yr ideoleg imperialaidd Brydeinig ymhlith aelodau'r dosbarth y perthynent iddo.

(ii) Eu hanallu i ennill cefnogaeth y gweithwyr diwydiannol oherwydd,

(a) eu ceidwadaeth ddiwylliannol ac academaidd hwy eu hunain a'u hymlyniad wrth ethos unigolyddol, biwritanaidd, wledig eu dosbarth.

(b) dylanwad y Mudiad Llafur, a'i Seisnigrwydd a'i ryng-genedlaethol-deb — weithiau'n onest, weithiau'n gochl dros Brydeindod — ar y dosbarth gweithiol.

Felly, dan lywyddiaeth Saunders Lewis, cychwynodd Plaid Cymru ei gyrfa wleidyddol fel plaid adweithiol, serch fod rhyw ychydig o'i haelodau cynnar yn sosialwyr — ffoaduriaid, gan fwyaf, o'r I.L.P. oedd yn gyflym ddadfeilio yn y cyfnod hwnnw.

Gydag ymddatodiad yr Ymerodraeth Brydeinig yn ystod y blynyddoedd a ddilynodd yr Ail Ryfel Byd, a dinodedd cynyddol Lloegr yn economaidd ac yn wleidyddol, cryfhaodd yr ymdeimlad cenedlaethol ymhlith y fân-fwrgeisiaeth Gymreig ac ymhlith y dosbarth gweithiol, ac adlewyrchir hyn gan dwf Plaid Cymru a arweinir yn awr gan Gwynfor Evans, gŵr addfwynach a mwy poblogaidd ei apêl na Saunders Lewis, a hefyd gan lwyddiannau cyfyngedig Cymdeithas yr Iaith Gymraeg a grwpiau procio eraill.

Fodd bynnag, ni chynhyrfwyd, a phrin y cyffyrddwyd trwch y boblogaeth gan lên ac areithiau'r Cenedlaetholwyr. Unwaith eto, rhaid inni fwrw golwg dros ein hanes os ydym am ddeall ein presennol.

# CYMRU A'R MUDIAD LLAFUR PRYDEINIG

Trwy gydol y ganrif hon, y mae'r modd y crynhowyd ac y canolwyd Cyfalaf wedi mynnu ymateb cyfatebol gan drefniadaethau'r gweithwyr. Aeth undebau rhanbarthol, annibynnol yn ysglyfaeth i'r datblygiad anorfod hwn; er enghraifft, dyna pam yr ymgorfforwyd Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru, Ffederasiwn Glowyr y De, ac Undeb Gweithwyr Alcan y De yn yr undebau mawr "Prydeinig". Mae'r ffactor "Brydeinig" hon yn allweddol.

Oherwydd fod gan Brydain Ymerodraeth, medrodd y Wladwriaeth Brydeinig brynu gwrthdystiad milwriaethus y dosbarth gweithiol gorthrymedig, yn fwyaf arbennig drwy lwgrwobrwyo arweinwyr undebol gydag arian, statws gymdeithasol a dylanwad cyfyngedig yng nghynteddoedd grym (a chyfrifoldeb di-ben-draw i gynnal y *status quo*). Y mae'n wir i ysbail Imperialaeth gael ei ddosbarthu'n fwy crintachlyd yn rhai rhannau o'r Deyrnas na'i gilydd, ond ar y cyfan, nid yw'r dosbarth gweithiol ym Mhrydain wedi gorfod dioddef yr un cyni â gwerinoedd gwledydd Ewropeaidd a chanddynt ymerodraethau llai.

Prif effaith Imperialaeth Brydeinig ar y dosbarth gweithiol oedd hyrwyddo **Economiaeth,** sef obsesiwn carfan o undebwyr llafur gyda chyflogau ac amodau gwaith a dihitrwydd llwyr ynglŷn â syniadaeth a hanes a diwylliant y dosbarth gweithiol; **Diwygyddiaeth**, sef bargeinio yn y Senedd neu mewn gweithfeydd i geisio ennill gwelliannau y tu fewn i'r Gyfundrefn Gyfalafol, yn hytrach na brwydro i sefydlu trefn Sosialaidd; **Philistiaeth**, sef atgasedd neu ddirmyg tuag at ddeallusrwydd a diwylliant; a **Chenedlaetholdeb Brydeinig**, sef ofn tramorwyr neu gasineb tuat atynt, ac agweddau anwybodus neu elyniaethus tuag at genedligrwydd y Cymry, yr Albanwyr a'r Gwyddelod.

Bu Seisnigrwydd yn gyfrwng pwerus i hyrwyddo treiddiad Prydeindod yng Nghymru a thrwy hynny i rymuso effeithiau'r tueddiadau imperialaidd uchod ar y dosbarth gweithiol Cymreig. Yn ddi-os, ni fyddai'r dylanwadau hyn wedi cael cymaint o effaith ar ddosbarth gweithiol Cymreig oedd yn ymwybodol o'i hanes ac yn benderfynol o warchod ei iaith, ei ddiwylliant a'i hunaniaeth genedlaethol, ac a fyddai felly'n wrthwynebus i amcanion y Wladwriaeth Brydeinig ac yn barod i frwydro, fel y Gwyddelod a'r garfan o weithwyr yr Alban a ddilynai John Maclean, i sefydlu Gweriniaeth annibynnol. Ond fel y gwelwyd, nid oedd fawr o obaith i ddosbarth gweithiol o'r fath ddatblygu yng Nghymru.

Yn hytrach, er 1918, rhoddodd y rhan helaethaf o'n gwerin weithiol ei theyrngarwch gwleidyddol i'r blaid a sefydlwyd ac a gynhaliwyd gan yr undebau llafur Prydeinig, sef y Blaid Lafur. Yn naturiol ddigon, o'r cychwyn

cyntaf, y mae'r blaid honno wedi arddel ac wedi hybu'r tueddiadau imperialaidd hynny a goleddwyd gan yr undebau.

Atgyfnerthwyd gafael "penwendid seneddol" — Lenin biau'r ymadrodd — ar y Mudiad Llafur Prydeinig yn aruthrol yn yr adfyd a ddilynodd Streic Fawr 1926, pryd y defnyddiwyd y methiant hwnnw, gan yr union arweinwyr undebol a achosodd i'r dosbarth gweithiol gael ei faeddu giaidd, i ddifrio ac i lethu undebaeth lafur filwriaethus a chwyldroadol.

Gwell gan fiwrocratiaid y T.U.C. weithio ar y cyd â Llywodraethau Llafur (neu Doriaidd, os cânt gennad eu haelodau cyffredin) i ennill consesiynau, yn hytrach na cheisio newid cymdeithas o'r bôn i'r brig. Mynegiant nodweddiadol o'r dirywiad hwn yw'r modd y disodlwyd, yn 1932, reolaeth diwydiant gan y gweithwyr, fel nod pendant y Mudiad Llafur, gan fiwrocratiaeth gyfalafol, wladwriaethol.

O'r herwydd, yr hyn a gafwyd ym Mhrydain er 1945 yw gwladoli detholus er budd a lles Cyfalafiaeth; trefn sy'n caniatáu i fentrau preifat ac i fuddsoddwyr ymwela'n sylweddol ar bolisïau iawndal, cytundebau a phrisiau y diwydiannau gwladoledig. Dyna pam y bu i'r Toriaid ac i fyd Busnes dderbyn gwladoli diwydiannau allweddol, fel y pyllau glo a'r rheilffyrdd, a adfeiliwyd gan eu perchnogion. Yn wir, o bryd i'w gilydd, gwladolwyd mentrau — e.e., y Llythyrdy a Rolls Royce — gan Lywodraethau Toriaidd. Serch hynny, difriwyd y diwydiannau gwladoledig yn gyson gan y Wasg gyfalafol a chan wleidyddwyr asgell-dde, er mwyn tanseilio'r egwyddor o berchnogaeth gyhoeddus.

Daeth cymathu Cymru â'r Mudiad Llafur a'i "benwendid seneddol" yn fater o'r pwys mwyaf ar ôl etholiad cyffredinol 1931 pryd y degymwyd cynrychiolaeth y Blaid Lafur o etholaethau Lloegr, tra y cyflenwid hanner y Blaid Lafur Seneddol newydd gan aelodau o Gymru. Y mae'n amlwg na ddylid annog unrhyw ran o Brydain a allai sicrhau digon o A.S.'au Llafur i wrthdroi mwyafrif Ceidwadol yn Lloegr — fel y digwyddodd yn 1950, 1964 ac ym mis Chwefror 1974 — i gefnu ar y miri pleidiol yn San Steffan.

## Ymreolaeth a'r Dosbarth Gweithiol

Trwy gydol ei hanes, clywyd lleisiau o blith y dosbarth gweithiol Cymreig yn galw am hunan-lywodraeth i Gymru. Dyna a wnaeth arweinwyr cynnar Ffederasiwn Glowyr De Cymru (S.W.M.F.). Yn union ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, wedi i Ryddfrydwyr a Heddychwyr ail-godi'r mater i sylw'r cyhoedd, ategwyd yr alwad gan holl drefniadaethau Llafur Cymru, gan gynnwys Ffederasiynau Llafur y De a'r Gogledd, Ffederasiwn Glowyr y De ac Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru. Dylid nodi, fodd bynnag, nad oedd gan Ymreolwyr y Mudiad Llafur, yn enwedig y rheini oedd ar y Chwith, unrhyw ddiddordeb mewn cenedlaetholdeb "pur", di-ddosbarth. Fel y rhybuddiodd Morgan Jones, a ddaeth, yn ddiweddarach, yn A.S. i'r

Blaid Lafur Annibynnol dros Gaerffili: **"Dylai'r Mudiad Llafur ochel rhag i Ymreolaeth gael ei ystyried fel nod ynddo'i hun, yn hytrach nag fel cyfrwng i ail-lunio cymdeithas a dileu gormes economaidd."**

Yr un flwyddyn — 1918 — cyhoeddodd George Barker, un o gynrychiolwyr mwyaf milwriaethus y glowyr yn y cyfnod hwnnw, sylwadau helaethach ar y pwnc mewn ysgrif yn y "**Welsh Outlook**". Meddai:

*"Pam nad awn ni ar ôl y peth mwyaf hanfodol — Senedd i Gymru — byddai hynny'n tanio brwdfrydedd pob Cymro. Mae Datganoli'n siŵr o ddod, a gorau po gyntaf, a buasai plaid wleidyddol wirioneddol Gymreig yn rhwym o rwyddhau ei hynt. Pam y dylai Cymru orfod mynd i gardota i Leogr am bob dim y mae arni ei angen?*

*Buasai Plaid Genedlaethol Gymreig yn ennill cefnogaeth gweithwyr Cymru petai'n cefnogi perchnogaeth y pyllau glo gan y glowyr a pherchnogaeth y gweithfeydd dur ac alcam gan weithwyr y diwydiannau hynny, ac yn y blaen.*

*Mae arnom ni eisiau rhyddid economaidd: tai cymwys a dymunol, a digon o le i erddi o'u cwmpas ar gyfer y bobl, a Senedd yng Nghymru, fel y gall ei phobl eu llywodraethu eu hunain."*

Cafwyd cefnogaeth helaeth a diffuant i'r syniad o Ymreolaeth i Gymru gan sosialwyr yn y cyfnod rhwng y ddau Ryfel. Ond — ac y mae'n hawdd deall hyn, er iddynt gyfeiliorni — ni fu Ymreolaeth erioed yn un o'u prif blaenoriaethau, ac ni thybiasant bod i'r syniad le canolog na hanfodol yn eu strategiaeth dros Sosialaeth. Gan iddynt dderbyn Prydeindod, a ystryrid yn gyfystyr ganddynt ag undod dosbarth-gweithiol â'u cymrodyr yn Lloegr, ni fedrent ddodi hawliau cenedlaethol Cymru mewn cyd-desutn gwrth-imperialaidd. Ni cheisiodd arweinwyr Llafur gipio awenau'r ymgyrch dros Ymreolaeth, swydd y gallent fod wedi ei chyflawni'n hawdd; yn hytrach, fe'u gadawsant yn nwylo Rhyddfrydwyr, Anghydffurfwyr gwrth-sosialaidd, deallusion rhamantaidd a dyrnaid o dirfeddianwyr. Arweiniodd hynny at fethiant anorfod yr ymgyrch yn y dauddegau cynnar, ac eironi diddorol yw mai un o'r ffactorau a'i chwalodd oedd ofn rhai gwlatgarwyr adweithiol o'r Gogledd mai "Bolsieficiaid y De" fyddai'n llwyodraethu Cymru a chanddi ei Senedd ei hun.

Efallai y buasai'r Blaid Lafur Genedlaethol Gymreig a fu'n ddelfryd gan E.T. John, Silyn a David Thomas ac eraill wedi llwyddo i ennill cefnogaeth ymhlith gweithwyr Cymru, ond nid oedd gobaith yn y byd i'r Blaid Genedlaethol a sefydlwyd yn 1925 wneud hynny. Yn wir, bu tueddfryd arweinwyr y Blaid Genedlaethol ac Anghydffurfwyr blaenllaw eraill, yn ogystal â'u daliadau ar faterion gwleidyddol a chymdeithasol, yn gyfrwng i greu ac i ledaenu agendor dwfn rhwng y Mudiad Llafur a Chymreictod. Yn ganlyniad i hyn ac i deuddiadau eraill y cyfeiriwyd atynt eisioes, erbyn y pumdegau cynnar yr oedd Cyngor Llafur Cymru a Rhanbarth De Cymru o Undeb i Glowyr (N.U.M.) wedi datgan yn bendant yn erbyn Senedd i

Gymru. Dim ond bygythiadau etholiadol Plaid Cymru, a fanteisiodd ar y modd y dadrithiwyd pobl gan Lafur a chan San Steffan a anogodd y Blaid Lafur ac Undeb y Glowyr i gefnogi Datganoli unwaith eto ar ddiwedd y chwedegau a dechrau'r saithdegau.

Hyd yn oed heddiw, fel y daw Seisnigrwydd â Thoriaeth yn ei sgil, y mae'r Blaid Lafur yn rhy Brydeinig, yn rhy ganoledig, yn rhy fiwrocrataidd, yn rhy lygredig ac yn rhy dwp i weld fod Gwladwriaeth Gymreig neu Senedd ddatganoledig yr un mor angenrheidiol er sicrhau ei pharhâd hi ei hun ag ydyw er hyrwyddo Sosialaeth. Ysigwyd sylfeini grym ac ysbrydoliaeth y Blaid Lafur gan ei methiant i warchod cymdogaethau a chymdeithasau gwerinol yng Nghymru ac i sefyll yn gadarn dros barhâd yr iaith Gymraeg a hunaniaeth genedlaethol y Cymry. Bradychodd y Blaid Lafur achos Sosialaeth trwy adael pobl Cymru'n ysglyfaeth di-amddiffyn i bropaganda asgell-de, i philistiaeth ac i Genedlaetholdeb Brydeinig.

* * * * * *

Mwyach nid yw'r Blaid Lafur, fel yr hoffai frolio gynt, yn "blaid trwch y dosbarth gweithiol". Yn etholiad cyffredinol mis Mai 1979, fe'i cefnogwyd gan ryw 47% o'r pleidleiswyr a hannai o'r dosbarth gweithiol (h.y., gweithwyr gwaith llaw, gweinyddwyr amhroffesiynol a'r di-waith), a chan ddim mwy na 35% o'r etholwyr a hannai o'r un dosbarth; yr ystadegau Cymreig cyfatebol yw oddeutu 60% o bleidleiswyr dosbarth-gwethiol ac ychydig o dan hanner yr etholwyr dosbarth-gweithiol.

Mewn nifer fawr o ardaloedd yng Nghymru, dirywiodd y Blaid Lafur i fod yn ddim amgen na pheiriant etholiadol hynafol a bregus a gynhelir gan ddelfrydwyr naif, ymdreiddwyr Trotsciaidd, dringwyr uchelgeisiol (darlithwyr a bar-gyfreithwyr, fel arfer), cynghorwyr llwgr neu ddiog, mewn-fudwyr haerllug o Saeson a thaeogion truenus o Gymry. Molir a dyrchefir A.S.'au Llafur Cymru gan grafwyr y Wasg a'r Cyfryngau yn San Steffan, a chan sosialwyr anwybodus yn Lloegr, fel gwrthryfelwyr eofn, brwd eu sêl dros egwyddorion sosialaeth asgell-chwith, ryngwladol; mewn gwirionedd, swydd-garwyr digywilydd a chenedlaetholwyr Prydeinig digyfaddawd ydynt bron i gyd.

Oherwydd i'r Blaid Lafur ennill teyrngarwch gwerin Cymry a'i gadw gyhyd, cynorthwyodd y Wladwriaeth Brydeinig, yn anad yr un blaid wleidyddol arall, i gyflawni un o'i hamcanion cysefin, sef dileu hunaniaeth genedlaethol y Cymry. Trwy gymathu Cymru â Phrydain a thrwy wrthod gwrthsefyll y tueddiadau economaidd ac ideolegol hynny sy'n tanseilio'r iaith Gymraeg, y mae'r Blaid Lafur wedi cyflawni cyfran sylweddol o amcanion gwrth-Gymreig Cyfalafiaeth.

Ceir aelodau o'r Blaid Lafur nad ydynt yn perthyn i'r un o'r dosbarthiadau a restrwyd uchod. Y mae'n bwysig, wrth gwrs, iddynt hwy barhau i ymgyrchu dros gynyddu democratiaeth fewnol eu plaid a thros

bolisiau sosialaidd, ond heb gymryd eu twyllo gan dybiaethau megis bod modd i'r Chwith ennill rheolaeth ar y blaid, bod Maniffesto asgell-chwith yn saff o ennill yr etholiad cyffredinol nesaf i Lafur, neu fod posibilrwydd y gwelir, rhyw ddydd a ddaw, Lywodraeth Lafur, asgell-chwith, yn sefydlu Sosialaeth trwy ddeddfwriaeth seneddol.

Cymwynas werthfawrocaf y gwŷr a'r merched hyn â dosbarth gweithiol Cymru ac ag achos Sosialaeth fyddai dadlau'n gryf a digyfaddawd yn erbyn Cenedlaetholdeb Brydeinig yn ei holl amryfal weddau, a thros yr iaith Gymraeg a Gwladwriaeth Gymreig, neu Weriniaeth Sosialaidd.

# Y DOSBARTH GWEITHIOL AC ANNIBYNNIAETH

Yn y ganrif ddiwethaf, ni fynnai'r fân-fwrgeisiaeth Gymraeg arwain Cymru tuag at Ymreolaeth. Ers tua deng mlynedd, y mae nifer cynyddol o etifeddion presennol y dosbarth hwnnw — athrawon, darlithwyr, myfyrwyr, cyfreithwyr, gweinyddwyr a darlledwyr — wedi ewyllysio hynny, ond nid ydynt yn ddigon lluosog nac yn ddigon cryf yn economaidd i gyflawni'r gamp.

Yr unig ddosbarth a fedr gyflawni'r gwaith o sefydlu Gweriniaeth Gymreig yw'r dosbarth gweithiol. Ond er y gallai hunan-lywodraeth, annibynniaeth, neu a defnyddio'r casair mwyaf ffasiynol, "arwahaniaeth", apelio at hunan-barch y Cymry, a fyddai hynny o fudd materol i'r gweithwyr? Onid e, nid oes gobaith y daw hunan-lywodraeth byth, nac ychwaith y bydd hunaniaeth y Cymry fel cenedl ar wahân yn parhau lawer hwy na diwedd y ganrif hon.

O ystyried yr economi, y mae canrif a hanner dan reolaeth y fwrgeisiaeth wedi dod â holl fanteision diwydiannaeth gyfalafol i Gymru — y cyfleusterau i gynhyrchu glo, haearn a dur a chemegau ar raddfa enfawr, i buro olew, i deithio, cludo a chyfathrebu'n gyflymach, i godi trefi mawrion, ac yn sgil hyn i gyd, i chwyddo'r boblogaeth. Fodd bynnag, daeth hefyd â'r holl anfanteision a gysylltir â Chyfalafiaeth. Ecsploetiwyd y gweithwyr; cafwyd ymchwyddiadau a dirwasgiadau yn yr economi, a diweithdra neu angau ar faes y gâd imperialaidd fu tynged miloedd lawer ohonynt. Tyfodd ac ymledaenodd trefi a phentrefi'r werin yn flêr o di-gynllun.

Eithr gwaethygwyd effeithiau drygau cynhenid y gyfundrefn gyfalafol ar Gymru oherwydd na ddatblygodd diwydiannaeth gyfalafol yma ar raddfa

genedlaethol, fel y digwyddodd mewn gwledydd eraill. Nid ystyriwyd Cymru gan na diwydiannwyr na gwleidyddwyr fel uned o unrhyw fath ynddi hi ei hun; anghenion y fwrgeisiaeth Brydeinig âi â'u bryd, a dim arall. Bu i hyn ganlyniadau economaidd trychinebus.

Yn gyntaf, lluniwyd cyfundrefnau trafnidiol y wlad, nid er mwyn cysylltu ardaloedd diwydiannol Cymru â'i gilydd, ond yn hytrach i'w cysylltu ag ardaloedd diwydiannol cyfagos yn Lloegr, ac â Llundain. Er fod y cysylltiadau hyn yn gwbl angenrheidiol, a bod angen datblygu pellach arnynt, nid yw hynny'n cyfiawnhau'r ffaith nad oes na phriffyrdd na rheilffyrdd cymwys rhwng y De a'r Gogledd. Esgorodd yr esgeulustod hwn ar strwythur economaidd sy'n hollol afresymegol o safbwynt Cymru, gan fod ardaloedd diwydiannol y De a'r Gogledd yn hollol ddi-gyswllt â'i gilydd, yn bur ddi-gyswyllt, hyd yn oed, â'r ardaloedd gwledig sy'n eu hamgylchynu, ac yn llwyr ddibynnol ar ardaloedd diwydiannol cryfach tu draw i Glawdd Offa.

Yr ail, seiliwyd datblygiad diwydiannol y De a'r Gogledd-Ddwyrain bron yn gyfan-gwbl ar ychydig o ddiwydiannau arbenigol, ac yn bennaf ar ddiwyddiannau trymion fel glo, haearn a dur. Gellid cyfiawnhau'r drefn hon o safbwynt y fwrgeisiaeth Brydeinig gan ddadlau fod rhaid canoli rhai diwydiannau mewn rhai ardaloedd arbennig. O safbwynt Cymreig, yr oedd, ac fe ddeil hynny'n hollol anamddiffynadwy, oherwydd pa bryd bynnag y mae'n rhaid i'r diwydiannau hyn adnewyddu eu strwythur, fel sy'n anorfod o bryd i'w gilydd, nid oes diwydiannau eraill yng Nghymru a all roi gwaith i'r rhai a ddigyflogir na chymyd lle'r hen ddiwydiannau fel all-forwyr nwyddau.

Y mae'r ddwy ffactor hyn, ar y cyd, wedi peri fod argyfwng cyffredinol y gyfundrefn gyfalafol yn y ganrif hon wedi effeithio'n fwy niweidiol ar ardaloedd diwydiannol Cymru nag ar unrhyw un o ardaloedd diwydiannol eraill Prydain. Ar adegau o ffyniant ac o gyni, fel ei gilydd, deil y raddfa ddiweithdra yng Nghymru ddwywaith yn uwch na'r hyn a geir ar gyfartaledd trwy Brydain. Ac at hynny, gan fod strwythur economaidd bresennol Cymru fel y mae, ymfudiaeth i Loegr yw'r unig ateb i'r broblem.

Rhwng 1919 a 1939, bu i ymron i hanner miliwn o bobl ifainc Cymru, sef tua phumed ran o'r boblogaeth, adael eu gwlad i chwilio am waith yn Lloegr. Ni wnaeth yr ymchwydd economaidd ar derfyn yr Ail Ryfel Byd, hyd yn oed, ddim i lesteirio'r broses. Y mae graddfa'r ymfudiaeth yn uwch am y cyfnod er 1945 nag yr ydoedd yn ystod y blynyddoedd rhwng y ddau Ryfel, a'u cymryd yn eu crynswth. Yn 1970, y flwyddyn ddiwethaf y mae'r ystadegau perthnasol ar ei chyfer ar gael, gadawodd dros 40,000 o bobl Gymru i ymsefydlu yn Lloegr.

Un o swyddogaethau Cymru fel "**trefedigaeth fewnol**" yw gwasanaethu canolfannau gwleidyddol, gweinyddol a masnachol y Wladwriaeth Brydeinig fel cronfa lafur mudol.

Gellir galw Cymru'n **drefedigaeth** am y rhesymau canlynol: mae tri-chwarter ei diwydiannau preifat yn nwylo cyfalafwyr estron, a rheolir ei

sector gyhoeddus yn gyfan-gwbl o'r tu allan; mae pumed ran o dir Cymru naill ai'n feysydd chwarae i Fyddin Lloegr neu dan ddŵr, er mwyn diwallu syched trefi mawrion Lloegr ac arbed cymoedd y wlad honno; atgyfnerthir hegemoni ddiwylliannol Lloegr yng Nghymru gan Wasg Saesneg, wrth-Gymreig a chan Brydeindod hyderus y corfforaethau darlledu; Saesneg, o bell ffordd, yw prif iaith sefydliadau'r Wladwriaeth yng Nghymru, gan gynnwys y gyfundrefn addysg, a Phrydain Fawr biau eu teyrngarwch.

**Trefedigaeth fewnol** yw Cymru, oherwydd er bod gan ei phobl, fel unigolion o Brydeinwyr, yr un hawliau gwleidyddol a sifil â Phrydeinwyr eraill, fel cenedl, dim ond cydnabyddiaeth arwynebol, nawddoglyd, bitw a gaiff (e.e., ei Phrifysgol "genedlaethol" a'i thimau chwaraeon) onibai fod manteision gweinyddol i'w thrin fel uned (e.e., y Swyddfa Gymreig).

A dinesydd eilradd, wrth gwrs, yw'r Cymro Cymraeg a fynn ddefnyddio, gweld a chlywed ei iaith ei hun yn gyhoeddus.

Cyhyd ag y'u carcherir yn y drefedigaeth fewnol hon, gorfodir y Cymry i ddioddef mwy o ddiweithdra, gwaeth tai, safon byw is a hyd yn oed einioes fyrrach na thrigolion y rhan fwyaf o ardaloedd eraill Prydain. Dim ond ad-drefnu economi Cymru, dan reolaeth y gweithwyr, fedr roi inni'r cyfle i ddileu'r anghyfiawnderau hyn.

Wnaiff y Wladwriaeth Brydeinig na'r Gymuned Economaidd Ewropeaidd fyth roi cynnig ar ad-drefnu'r economi'n y fath fodd. Dim ond Gwladwriaeth Gymreig fyddai'n gweld synnwyr yn y peth. A'r unig fath ar Wladwriaeth Gymreig a feddai'r gallu i gyflawni'r newid hwn fyddai un a chanddi reolaeth dros economi'r wlad yn ei chrynswth, a thros ei holl adnoddau naturiol, sef gwladwriaeth sosialaidd.

Ni all Cymru osgoi effeithiau argyfyngau rhyngwladol, bid siŵr, ac ni fedrai'r wlad obeithio ffynnu megis gwerddon sosialaidd mewn diffeithwch cyfalafol, ond pe deuai dirwasgiad byd-eang, byddai gwarchod buddiannau Cymru'n brif flaenoriaeth gwladwriaeth o'r fath. Gallai hefyd roi cychwyn i ad-drefnu'r economi, er fod hynt y broses faith honno a'i chwblhad yn dibynnu'n y pen-draw ar lwyddiant Sosialaeth mewn gwledydd diwydiannol eraill.

Ni allwn fforddio oedi ddim hwy. Heb hunan-lywodraeth, erys y Cymry dan bawen gwladwriaeth aliwn, yn weision i'w cyflogi a'u bwrw ar y clwt fel y mynn eu meistri estronol, neu'n alltudion yn begera am waith mewn ardaloedd mwy llewyrchus.

## Pwy sy'n cynnal pwy?

Yn anffodus, yn amlach na pheidio, gwrthwynebir unrhyw ymgais i ddryllio'r hualau hyn gan ddadleuon fel a ganlyn: "Allai Cymru fyth fforddio ei chynnal ei hun . . . 'Rydym ni'n ddibynnol ar gymorth-daliadau'r Llywodraeth . . . Mae'r Saeson yn ein cynnal ni . . ."

Gŵr sy'n hyddysg iawn yn y dadleuon hyn yw'r Aelod Seneddol o Brydeiniwr brwd a gwrth-Gymraeg hwnnw, Neil Kinnock. Ys dywedodd mewn erthygl yn y "Tribune" (8/4/77): " **'Rydym ni'n genedl na fedr dalu ei biliau"**. Ymhelaethodd a manylodd mewn araith yn Nhŷ'r Cyffredin (4/4/78):

*"Dyma ni, felly, yn genedl o feth-dalwyr, sy'n dibynnu ar haelioni — nad yw, o angenrheidrwydd yn haelioni gwirfoddol — treth-dalwyr gweddill y Deyrnas. Oherwydd diffygion ariannol Gogledd Iwerddon a'r Alban, yr hyn a olygir yw haelioni pobl Lloegr, ac oherwydd amgylchiadau anffodus pobl y Gogledd-Ddwyrain, Glannau Merswy, yr ardaloedd gwledig anghysbell a'r slymiau a geir yng nghanol cynifer o ddinasoedd mawr Lloegr, ystyr hyn yw haelioni pobl rhanbarth cymharol ffynianus De-Ddwyrain Lloegr."*

Wel pwy fase'n meddwl? Dibynna ardaloedd diwydiannol ac amaethyddol gweddill Prydain ar yr *"Home Counties"* bondicrybwyll, ble y triga cynifer o Aelodau Seneddol cymoedd y De!

Nid yw o bwys mawr pa un ai dwyshau taeogrwydd y Cymry er eu budd personol a gwleidyddol eu hunain y mae rhai o arweinwyr y Blaid Lafur, ynteu rhoi mynegiant dilys o'r taeogrwydd hwnnw, yn ddiarwybod iddynt hwy eu hunain. Y ffaith arwyddocaol yw bod y dadleuon uchod mor wrth-sosialaidd ag yr ydynt wrth-Gymreig. Gellid tybio na ŵyr y sawl a'u datgan ddim oll am un o sylfeini athronyddol Sosialaeth, sef y Ddamcaniaeth fod Gwerth yn deillio o Lafur.

Deil y ddamcaniaeth hon mai llafur sy'n creu gwerth unrhyw nwydd (ac eithrio rhai nwyddau, megis campweithiau celfyddydol, a drawsnewidwyd yn gyfalaf). Dan y drefn gyfalafol, y mae'r gwaith sy'n cymhwyso deunydd crai i'w droi'n nwydd, yn fwy ei werth, fel arfer, na'r cyflog a delir i'r gweithiwr i'w gynnal ef (neu hi) a'i deulu. Diriaethir y "gor-werth" a enillir gan y cyflogwr ar ffurf elw, sy'n cynnwys cyflog anhaeddiannol y cyflogwr, rhent, a llog i fancwyr a buddsoddwyr. Felly nid yw'r modd y dosberthir cyfoeth yn cyfateb i gyfraniad y rhai a'i creodd.

Nid yw'r gweithwyr yn mwynhau holl ffrwyth eu llafur. Yn wir, yn 1977, dadlennodd y Comisiwn Brenhinol ar Ddosbarthiad Incwm a Chyfoeth fod carfan o 20% o'r boblogaeth yn berchen 82% o holl eiddo personol y Deyrnas — adeiladau, tir ac asedau ariannol, gan fwyaf. Tamaid go sylweddol o'r gacen! Prin iawn y gallai 1/5 o'r boblogaeth fod wedi cyfrannu 4/5 o'r ynni corfforol a meddyliol a greodd yr holl olud hwn!

Perthynas anghyfartal y gwahanol ddosbarthiadau cymdeithasol yw achos sylfaenol y modd anghyfartal y dosberthir cyfoeth. Ond yn ogystal, dros y canrifoedd, crynhowyd grym Cyfalaf mewn rhai ardaloedd arbennig, breintiedig, megis De-Ddwyrain Lloegr, a Llundain, yn enwedig; yno y mae pencadlysoedd economaidd, ariannol a gwleidyddol y Deyrnas.

Dim ond 34% o boblogaeth De-Ddwyrain Lloegr sy'n gweithio i gynhyrchu cyfoeth trwy amaethu, cynhyrchu nwyddau, adeiladu, neu

gloddio mwynau, neu sy'n cyflawni gwasanaethau hanfodol fel darparu nwy, trydan a dŵr. Y mae'r rhan fwyaf o'r rhelyw â swyddi mewn meysydd fel gweinyddiaeth, trafnidiaeth, cyfathrebu a dosbarthu — swyddi na fyddai'n bod onibai am y cyfoeth a grewyd gan lafur: ac/neu maent yn pesgi ar y gor-werth a enillwyd o lafur eraill trwy gyfrwng masnach, y farchnad arian, neu berchnogaeth tai. Ar gyfartaledd, perthyn 48% o boblogaeth gweddill Prydain i'r dosbarth sy'n cynhyrchu cyfoeth; 47% yw'r canran yng Nghymru a 50% yng Ngogledd-Ddwyrain Lloegr.

Felly, trwy haeru bod De-Ddwyrain Lloegr yn noddi rhanbarthau a gwledydd eraill Prydain, try Kinnock a'i gymrodyr egwyddorion yr economeg sosialaidd ben-ycha'n-isa! A yw'r *"Stock-Exchange"* yn cyflwyno cymorth-daliadau i weithwyr Tyneside, Lerpwl neu Gymru? A yw bancwyr Bury St. Edmunds a chyfrifyddion Kingston-upon-Thames? Ai gwir, ynteu, fod gweithwyr yr *"Home Counties"* yn noddi gweithwyr pobman arall? Mae hynny'r un mor hurt a'r honiadau blaenorol. Y gwir yw mai'r gweithwyr, lle bynnag y bônt, sy'n cynnal ac yn cyfoethogi cymdeithas yn ei chrynswth.

Yr hyn a geir yma gan Kinnock, fel gan gynifer o ddoethinebwyr cyffelyb, yw pryd eildwym o economeg gyfalafol, a hwnnw'n llawn o werthoedd ac o driciau cyfrifyddol y wyddor honno. Dyma'r resymeg:

"Yng Nghymru, mae'r agendor rhwng gwario cyhoeddus (gan Lywodraeth Leol a Chanol, y diwydiannau gwladoledig, etc.) a'r gyllid gyhoeddus (ardrethi, trethi, tollau, cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol, etc.) yn lletach nag ydyw yn Ne-Ddwyrain Lloegr. Y mae Cymru, felly, mewn dyled, a daw'r arian cyhoeddus "ychwanegol" a werir yma o bocedi treth-dalwyr haelionus De-Ddwyrain Lloegr . . ."

Anghofier pa ddosbarth sy'n creu cyfoeth cymdeithas mewn gwirionedd. Anghofier gyfansoddiad dosbarthol y gwahanol ranbarthau a gwledydd. Anghofier ble y cynhyrchir elw, llog a rhenti, ac i ble y gellid eu trosglwyddo. Anghofier fod cyflogau uchel y dosbarthiadau sy'n ecsploetio llafur, ac yn dibynnu'n llwyr ar lafur am fywoliaeth, yn eu galluogi i dalu trethi ac ardrethi uwch, a bod hynny'n lleihau "dyled" yr ardaloedd hynny ble y ffurfiant ganran uchel o'r boblogaeth. Anghofier mai dyledwr yw De-Ddwyrain Lloegr, hefyd, a bod Dyled Wladwriaethol (P.S.B.R.) y Deyrnas Unedig oddeutu £10 biliwn y flwyddyn, ac nad oes neb yn holi o'r herwydd a fedr Prydain Fawr fforddio hunan-lywodraeth. Anghofier bod posibilrwydd mai dwysedd llafur cyfoeth-gynhyrchiol mewn ardal, neu'r defnydd a wneir o ardal fel gwladfa i bobl wedi ymddeol, neu faes chwarae i dwristiaid, sy'n peri bod angen am fwy o wario cyhoeddus yno.

Rhaid bod y sawl sy'n mynnu mai cardotes yw Cymru yn arddel agwedd wrth-sosialaidd at y modd y gweithreda'r drefn gyfalafol. Er mai dim ond 5% o boblogaeth Prydain sy'n trigo yng Nghymru, y mae'r wlad yn cyflenwi 10% o gynnyrch amaethyddol y Deyrnas Unedig, yn cloddio 9% o'i glo, yn puro 28% o'i holew, yn cynhyrchu 9% o'i thrydan, 23% o'i haearn, 29% o'i dur amhur, a 99% o'i halcam. Mae gennym ddigonedd o dir, o ddŵr ac o

adnoddau mwynol a choedwigol, yn ogystal â phorthladdoedd dyfnion a'r posibilrwydd o sefydlu diwydiant pysgota llewyrchus ac o durio am olew o dan y môr.

Lol adweithiol a gwrth-Gymreig yw'r haeriad fod pobl Cymru'n byw ar gardod ac na allent fforddio hunan-lywodraeth.

## Peryglon y Wladwriaeth Gorfforaethol

Rheswm da arall pam y dylai gweithwyr a phobl Cymru ymryddhau oddi wrth y Deyrnas Unedig yw'r perygl dichonadwy y bydd argyfyngau a chroes-dueddiadau Cyfalafiaeth ym Mhrydain yn cynyddu ac yn gwaethygu maes o law, gan esgor ar gyfundrefn dotalitaraidd, adweithiol.

Nid codi bwganod mo hyn. Mae'r holl ddefnyddiau angenrheidiol yn y crochan, ac an agoshau at y berw, sef,

(a) Cynhyrchiant isel y gyfundrefn gyfalafol ym Mhrydain a'i hanallu i gystadlu'n llwyddiannus ag eiddo gwledydd fel Siapan, yr Almaen, Ffrainc a'r Unol Daleithiau.

(b) Y gwrthgyferbyniad peryglus rhwng y dosbarth gweithiol a'r fwrgeisiaeth gyfalafol, y naill ddosbarth yn meddu grym aruthrol ym myd diwydiant, ond yn hollol ddiarweiniad a diymgeledd yn wleidyddol, a'r llall, er fod ei gyfundrefn economaidd yn agos iawn at ben ei thennyn, yn dal ei afael yn dynn iawn yn yr awennau gwleidyddol a gweinyddol, ac yn ei allu i ddylanwadu ar feddyliau a theimladau'r boblogaeth drwy'r Wasg, y cyfryngau torfol eraill, a'r gyfundrefn addysg.

(c) Cefnogaeth carfannau helaeth o'r fân-fwrgeisiaeth, a llawer o weithwyr, hyd yn oed, i ymgyrch ddiflino'r cyfalafwyr i ysigo nerth diwydiannol y dosbarth gweithiol trwy "dorri crib yr undebau".

(ch) Hiraeth am yr Ymerodraeth a chywilydd oblegid "darostyngiad" eu gwlad yn grymuso apêl glwatgarwch Prydeinig eithafol ymhlith aelodau o bob dosbarth, a'r duedd hon yn derbyn cefnogaeth frwd y Cyfryngau a'r Wasg a gwleidyddion y Dde.

(d) Radicaliaeth y Dde yn llwyddo ymhlith y gweithwyr oherwydd diymadferthedd y Chwith.

(dd) Bychod dihangol hwylus wrth law i hybu "undod cenedlaethol" Prydain Fawr; e.e., y Farchnad Gyffredin, mewn-fudwyr croen-dywyll, "arwahanwyr" Cymru a'r Alban.

(e) Awydd cyffredinol am drefn a sefydlogrwydd cymdeithasol ac am "ddychwelyd at y safonau traddodiadol".

(f) Dadl ymddangosiadol deg, hollol anonest, y biwrocratiaid gwladwriaethol a chynheiliaid eraill y drefn gyfalafol, dros godi adweithyddion niwclear a fedr "epilio'n gyflym". Canlyniad anesgor y Wladwriaeth Blwtoniwm fyddai rhagor o gyfyngiadau ar undebaeth lafur, byddin fwy, a mwy o bolîs ym mhob man. A chofier bod Gogledd-Orllewin Cymru'n

gartref delfrydol i adweithyddion niwclear.

(ff) Y modd y mae'r Wladwriaeth yn arbrofi gyda dulliau newydd o gasglu gwybodaeth am unigolion, o wastrodaeth terfysgoedd mewn mannau cyhoeddus, o weithredu'n filwrol yn erbyn dinasyddion, o drefnu cyd-weithrediad rhwng y Polîs a'r Fyddin, a thechnegau gormes eraill yng ngogledd Iwerddon.

Cynyddu y mae'r galw am bolisi cyflogau parhaol ac ar i'r Cyflogwyr, yr Undebau a'r Llywodraeth ddod at ei gilydd i drafod sut orau i gadw gwahardd ar gyflogau a safon byw'r gweithwyr. Gallai'r "trafodaethau" hyn ddatblygu'n gorff sefydlog, tebyg i'r Cyngor Cenedlaethol dros Ddatblygiad Economaidd (N.E.D.C.), ond bod iddo bwerau statudol. Y mae cyd-weithrediad rhyng-ddosbarthol, rhwystrau deddfwriaethol ar godiadau cyflog, cyfyngiadau ar hawliau sifil, deddfau gwrth-undebol, ymyrraeth gynyddol gan y Lluoedd Arfog mewn anghydfodau diwydiannol, a militareiddio'r polîs, yn sylfeini cedyrn i Wladwriaeth Gorfforaethol, sef "Ffasgaeth â gwep ddynol".

Ni fuasai datblygiad gwleidyddol o'r fath yn anghyson ag aelodaeth o'r Gymuned Economaidd Ewropeaidd. Gellir canfod y nodweddion uchod mewn nifer o wladwriaethau ar gyfandir Ewrop. Gallai'r Deyrnas Unedig ddatblygu'n Wladwriaeth Gorfforaethol heb arafu'r mymryn lleiaf ar ei chymathiad â'r Farchnad Gyffredin.

Eisioes dengys NATO ac Interpol, â'u hen gysylltiadau Ffasgaidd, ac awydd gwleidyddwyr a gweinyddwyr y Gymuned i sefydlu asiantaeth ar y cyd i brynu arfau yn awr, a Byddin Ewropeaidd rywbryd yn y dyfodol, fod Gwladwriaeth Gorfforaethol Gorllewin Ewrop yn graddol ymffurfio dan gochl "Senedd Ewropeaidd wedi'i hethol yn uniongyrchol".

Ymateb truenus i'r bygythiadau uchod yw chwifio Jac yr Undeb ac ymfyddino i warchod San Steffan. Yn hytrach, dylai sosialwyr ddadlau dros chwalu'r Deyrnas Unedig a gwrthgyferbynu ffugddelfrydau'r Farchnad Gyffredin gyda phosibiliadau diri' Ewrop Sosialaidd, unedig.

## Cyfnod y Chwyldro

Y pennaf reswm pam nad yw'n debygol y sefydlir Sosialaeth yng ngwledydd Prydain heb gyfnod o drais ac adwaith, ac efallai ryfel cartref a gorthrwm ffasgaidd, yw nad oes gan y gweithwyr blaid chwyldroadol yn meddu'r weledigaeth, yr ewyllys, y penderfyniad a'r beiddgarwch i gipio awenau'r Wladwriaeth Brydeinig o ddwylo'r dosbarth llywodraethol pe cai'r cyfle.

Unwaith y byddai plaid o'r fath wedi ennill grym, byddai'n rhaid iddi weithredu'n ormesol tuag at benaethiaid yr hen drefn, sef y diwydiannwyr mawr a'r prif gyfalafwyr, y gwleidyddion mwyaf adweithiol, penaethiaid y Wasg, y Cyfryngau a'r gwasanaeth sifil, y Barnwyr pwysicaf, ac uchel

swyddogion y Lluoedd Arfog a'r Polis. Oni wnâi hynny, fe ddeuai **adwaith anorfod,** dan arweiniad y boneddigion uchod, gan chwalu'r Mudiad Llafur a phob mudiad blaengar arall, a charcharu, arteithio a llofruddio miloedd o weithwyr a'u cefnogwyr.

"Fydda'n soldiwrs ni fyth yn gneud petha ofnadwy fel'na," meddach chi.

Dyna'n union beth a ddywedai'r diweddar Salvador Allende.

Pan fo seiliau gwladwriaeth gyfalafol yn gwegian, nid oes ond dau bosibilrwydd — unbeniaeth fwrgeisaidd, sef Ffasgaeth, yn cadarnhau'r seiliau hynny gyda chyrff a gwaed y gweithwyr, neu unbeniaeth y gweithwyr yn erbyn y fwrgeisiaeth gyfalafol, yn arwain y gymdeithas yn ei chrynswth tuag at Sosialaeth.

# SOSIALAETH I'R CYMRY

Chwedl y diweddar J. Roose Williams, Cymro gwlatgar ac aelod amlwg o'r Blaid Gomiwnyddol, lawer blwyddyn yn ôl:

*"Trychineb Cymru ydy bold y frwydr dros ryddid cenedlaethol a'r frwydr dros gyfiawnder economaidd a chymdeithasol wedi'u hysgaru ers hanner canrif a mwy. O ganlyniad, rhyw friwsion enillwyd gan y naill a'r llall. Ddaw yna fawr ddim o'n hymdrechion ni fel sosialwyr na chenedlaetholwyr os na lwyddwn ni i wneud y ddwy frwydr yn un. Pan fedrwn ni ieuo'r ddau rym deinamig pwysicaf ym mywyd y Genedl, y dyhead am ryddid a'r dyhead am gymdeithas gyflawn, mi welwn ni newidiada' syfrdanol . . ."*

Buasai llawer mwy o genedlaetholwyr Cymru'n ategu'r geiriau hyn heddiw na phan y'u llefarwyd, tua phymtheg mlynedd yn ôl; llawer mwy hefyd, y mae'n debyg o aelodau'r blaid y perthynai J. Roose Williams iddi; ac at y ddwy garfan hyn gellir ychwanegu nifer o gyn-aelodau dadrithiedig a dadbrydeiniedig y Blaid Lafur.

Ond a fedr y "Chwith Newydd" Gymreig hon gynnig strategiaeth a fydd yn gyfrwng effeithiol ac ymarferol i hyrwyddo Sosialaeth yng Nghymru a'r gwledydd amgylchynol?

Dyma ymgais. Un ddigon amherffaith, mae'n siŵr. Ond rhaid dechrau'r rhywle. Ac mae'n hen bryd inni ddechrau.

## Gwladwriaeth i'r Cymry

Y mae'n rhaid i Sosialwyr ddyrchafu'r nod o sefydlu Gwladwriaeth annibynnol i Gymru yn un o'u blaenoriaethau hanfodol yn ystod y deng mlynedd nesaf, gan fod yr hunaniaeth Gymreig, ynghyd â'r diwylliant gwerinol a'r wleidyddiaeth radicalaidd sy'n ei hydreiddio, yn awr mewn perygl o gael ei difodi. Buasai Gwladwriaeth Gymreig yn rhwym o lacio gafael yr Imperialaeth Brydeinig ar un rhan o'i thiriogaeth ac o greu yng Nghymru amgylchiadau a fyddai'n hyrwyddo datblygiadau gwleidyddol blaengar, gan wanhau dylanwad y meddylfryd imperialaidd ar y dosbarth gweithiol yn Lloegr yn ogystal ag yng Nghymru.

Nid dyfarniad yn erbyn argymhellion y Llywodraeth oedd y bleidlais negyddol anferth a gafwyd yn y Refferendwm; mater cymharol ddibwys oedd y Cynulliad a'i bwerau, neu ei ddiffyg pwerau. Yr hyn a wnaeth y mwyafrif llethol a bleidleisiodd yn erbyn y Cynulliad oedd ymwrthod â chenedlaetholdeb claear, cymrodeddus yr argymhellion, a chadarnhau eu hymdeimlad o israddoldeb fel Cymry.

Y mae'n amlwg fod y rhan fwyaf o bobl Cymru'n teimlo bod ffurf wleidyddol ar genedlaetholdeb banerog, teimlodd Parc yr Arfau un ai'n wrthun neu'n amherthnasol. Oni bai fod Cenedlaetholdeb yn ymosod yn herfeiddiol ar yr anghyfiawnderau economaidd a chymdeithasol sy'n difwyno'n gwlad, y mae'n amhosibl i'r athroniaeth hon ddenu cefnogaeth mwyafrif y bobl, ac nid yw'n haeddu gwneud hynny.

Nid yw honglad o adeilad yng Nghaerdydd, nac yn unman arall, â'r Ddraig Goch yn chwifio uwchben yn mynd i ennyn serch a brwdfrydedd y Cymry; ac nid brudwyr mohonynt ychwaith yn barod i dderbyn Cynulliad tila oherwydd eu bod yn rhagweld y gallai ddatblygu'n Senedd rymus.

**Yr unig fath ar genedlaetholdeb y mae dichon iddo lwyddo, ac sy'n haeddu llwyddo, yw cenedlaetholdeb ac iddo gynnwys cymdeithasol ac economaidd pendant. Mynnwn ni mai dosbarth gweithiol Cymru yw'r unig sylfaen gymdeithasol bosibl i genedlaetholdeb o'r fath ac mai sosialaeth yw'r unig sylfaen athronyddol.**

Gelynion anghymodlon pob ffurf ar wlatgarwch iach yng Nghymru yw meddylfryd trefedigaethol y Cymry a'r Wladwriaeth Brydeinig sy'n ei greu a'i feithrin. Oblegid hyn, nid yw'n ddigon bod ein Cenedlaetholdeb yn sosialaidd (a thrwy hynny'n ryng-genedlaethol ei ogwydd); rhaid iddo hefyd fod yn hollol ddigyfaddawd yn ei sêl dros Gymreictod ac yn erbyn Prydeindod.

## Adnewyddu Plaid Cymru

Ni ddylai neb synnu oherwydd fod carfan helaeth ym Mhlaid Cymru —

yn enwedig arweinwyr y Blaid — wedi rhoi cefnogaeth frwd i'r ymgyrch ddi-fudd o blaid y Cynulliad, gan nad oedd "Datganoli" yn ddim namyn fersiwn eiddil o'u Cenedlaetholdeb "cymedrol" hwy, nad yw'n sosialaidd nac yn wrth-Brydeinig.

Ffaith bwysicach ei harwyddocâd yw fod argymhellion y Llywodraeth yn cyd-fynd yn hwylus â strategaeth y Blaid, sef ennill hunan-lywodraeth i Gymru'n ddistaw bach, fesul tipyn, heb gynhyrfu na brawychu neb, a heb beri unrhyw wrthdaro gwirioneddol rhwng y Cymry ar y naill law a'r Wladwriaeth Brydeinig a Chyfalafiaeth ar y llall:

**Y Cam Cyntaf:** cael Cynulliad digon didramgwydd, na fyddai neb rhesymol yn ei wrthwynebu. **Yr Ail Gam:** rhoi hawliau deddfwriaethol i'r sefydliad hwnnw, trwy gyd-syniad a chyd-weithrediad aelodau o bleidiau eraill. **Y Trydydd Cam:** Statws Genedlaethol Gyflawn!

Fel yna câi Cymru Hunan-lywodraeth heb frwydro na gwrthdaro, heb dorri'r Gyfraith, "heb gyrchu o neb i garchar", ac yn sicr ddigon, heb unrhyw weithred dreisiol yn erbyn y Wladwriaeth Brydeinig, na'i hideolegau, na'i sefydliadau, na'i Lluoedd. (Gwell fyddai i genedl y Cymry drengi nag i hynny ddigwydd!)

Nid yw'n syn mai parodrwydd i gyfaddawdu, amharodrwydd i fentro, anwadalwch bwriad a llwfrdra yw prif nodweddion plaid y mae cyfran helaeth o'i haelodau, gan gynnwys ei harweinwyr, yn fân-fwrgeisiaid, yn Anghydffurfwyr ac yn heddychwyr.

Ni chlywyd na siw na miw gan y Blaid ynglŷn â phynciau llosg fel yr Arwisgo, y Frenhiniaeth, gormes Prydain yng Ngogledd Iwerddon a chynllwynion y Wladwriaeth yn erbyn aelodau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, ac yn anaml iawn y cododd ei llais i gefnogi'r gweithwyr yn ystod anghydfodau diwydiannol.

Rhaid codi arweinyddiaeth newydd a rydd fynegiant teilwng, trwy air a gweithred, i Blaid ymosodol a fydd yn drwyadl sosialaidd a gwrth-Brydeinig. Mae hon yn frwydr werth ei hymladd, ond pe llwyddai'r "Ceidwadwyr Cefngwlad" i ddal eu gafael ar bwrs a pheirianwaith y Blaid, dylai'r aelodau sy'n sosialwyr ac yn weriniaethwyr ei gadael er mwyn cyfranogi yn y gwaith o sefydlu plaid sosialaidd, weriniaethol, annibynnol.

## Y Frwydr Wrth-Imperialaidd

Ceir cenhedloedd ym mhob rhan o'r byd sy'n ymladd dros Hunan-lywodraeth; efallai y bydd arnynt hwy angen ein cymorth ni ryw ddydd, fel y mae arnom ni angen eu cymorth hwy yn awr. Gallwn gyd-ddysgu o'n profiadau'n gilydd. Rhaid sefydlu cysylltiadau cryfach rhwng Cymru a mudiadau cenedlaethol a rhanbarthol a chanddynt bolisiau cymdeithasol blaengar, yn enwedig yn Ewrop, ble y mae dichon y dryllir hen

wladwriaethau cyfalafol fel Sbaen a Ffrainc cyn diwedd y ganrif hon.

Ys dywedodd Franz Fanon:

*"Nid ynysu cenedl y mae rhyddid cenedlaethol ond ei hannog i chwarae ei rhan yn gyflawn ar lwyfan Hanes. Yng nghraidd yr ymwybodaeth genedlaethol y trig ac y prifia'r ymwybyddiaeth ryng-genedlaethol."*

Yn nes gartref, rhaid datgan gwrthwynebiad diwyro i hawl Prydain ar Ogledd-Ddwyrain Iwerddon a phresenoldeb ei Lluoedd yno. Cefnogwn y rheini sy'n gweithio i greu Iwerddon rydd, unedig a Gweriniaeth Sosialaidd i'r ddeuddeng Sir ar hugain.

Ni ellir ysgaru'r frwydr yng Nghymru yn erbyn Cyfalafiaeth, a'r Wladwriaeth Brydeinig a grewyd ganddi, oddi wrth yr ymgyrch fyd-eang i ddymchwel y gyfundrefn gyfalafol ryng-wladol, sef Imperialaeth. Er pan lwyddodd y Chwyldro Bolsieficaidd yn 1917, ciliodd Imperialaeth o nifer cynyddol o wledydd y byd. Ni fynnwn esgusodi na gwyngalchu'r anghyfiawnderau a ddigwydd yn y gwledydd anghyfalafol, ond cynhaliwn eu breichiau yn erbyn Imperialaeth y Gorllewin. Datganwn hefyd fod gadael y gwaith o ymgyrchu dros "hawliau dynol" i Arlwyddion yr Unol Daleithiau a'u cŵn bach yn Swyddfa Dramor Prydain yn tanseilio Sosialaeth ac yn cryfhau Imperialaeth.

## Brwydr yr Iaith a'r Frwydr dros Sosialaeth

Ni fu'r Gymraeg erioed yn iaith dosbarth llywodraethol na'i wladwriaeth. Yn hytrach, fe'i cynhaliwyd yn ystod canrifoedd o adfyd ac erledigaeth gan werin bobl Cymru — ei glowyr, ei chwarelwyr, ei llafurwyr a'i gweision ffermydd. Hi yw hanfod Cymreictod a chraidd diwylliant unigryw a berthyn i ddosbarth gweithiol Cymru yn anad neb.

Ond y mae'r Gymraeg hefyd yn fan gwan yn arfogaeth ideolegol y Wladwriaeth Brydeinig, gan na lwyddodd honno hyd eto i'w thrawsfeddiannu a'i thrin a'i thrafod fel y mynn. Ynys ble y gwarentir annibyniaeth barn a buchedd yw'r Gymraeg, yng nghanol cefnfor o sbwriel Eingl-Americanaidd, celwyddau swyddogol a chydymffurfiaeth. Gan fod Imperialaeth â'i bryd ar ladd y Gymraeg, gallwn ni Gymry amgyffred natur Imperialaeth a'i dulliau yn well na rhai pobloedd eraill.

Os caniata'r Cymry, y Cymry di-Gymraeg yn ogystal â'r Cymry Cymraeg, i'r iaith sy'n gongl-faen eu hunaniaeth gael ei difodi, nid oes argoel y bydd iddynt fyth frwydro o ddifrif dros gymdeithas a threfn economaidd a fydd yn parchu eu dynoliaeth. Ystyrier y sylwadau canlynol o eiddo James Connolly, y Chwyldroadwr Sosialaidd o Wyddel, ar y berthynas rhwng y ddwy frwydr:

*"Nid allgaredd na chred mewn Brawdoliaeth Dyn sy'n ysgogi cenhedloedd a ymostwng i'w goresgynwyr neu a gefna ar eu hieithoedd eu hunain, gan arddel iaith eu gormeswyr, ond ysbryd llwfr a gwasaidd, ysbryd na fedr fyth gyd-fyw â'r syniad chwyldroadol. Profwyd hynny'n eglur yn Iwerddon gan agwedd y bobl at eu hiaith. Am chwe chan mlynedd, ceisiodd y Saeson ddifodi'r iaith sy'n nodi arwahanrwydd cymeriad y Gwyddyl, a hynny'n ofer. Ond yn ystod un genhedlaeth, llwyddodd y gwleid-yddion ble y methodd Lloegr.*

*Saesneg oedd unig iaith cyfarfodydd Daniel O'Connell, mawr ei fri, y Rhyddhawr bon-digrybwyll. Saesneg yn unig a siaradai wrth annerch cyfarfodydd yng Nghonach, ble yr oedd pawb yn siarad Gwyddeleg, a thri-chwarter y boblogaeth yn uniaith Wyddeleg. Cyflwynodd i bobl syml a diniwed felly y syniad mai iaith i gywilyddio o'i phlegid oedd y Wyddeleg — iaith nad oedd yn gymwys i neb ond pobl anwybodus ei siarad. Dyna'i arferiad trwy Iwerddon benbaladr.*

*Yn ganlyniad i hyn a gweithredoedd cyffelyb eraill, cefnodd y werin bobl ar eu hiaith eu hunain, gan ddechrau efelychu'r "byddigions".* **Dyna gychwyn teyrnasiad y llyfwr, y crafwr, y cynffonnwr a'r caethwas."**

**(O "The Language Movement").**

Y mae'n hen bryd adleisio geiriau Connolly nes eu bod yn diasbedain trwy'r Gymru sydd ohoni. Rhaid i sosialwyr a gwlatgarwyr sefyll yn gadarn ac yn ddigymrodedd ar bwnc yr Iaith gan fod pob ymosodiad ar yr iaith Gymraeg yn ymosodiad hefyd ar Gymru a'i gwerin.

Yr ydym am weld y Gymraeg yn cael ei hatgyfnerthu a'i chynys-gaeddu yn fwy nag a ddigwyddodd erioed o'r blaen yn ei hanes, i fod yn rhan o batrwm amryliw a chyfoethog llwyddiannau'r ddynoliaeth. Ni olyga hyn ein bod o'r unfarn â'r rheini sydd am hollti Cymru'n ddwy, gan ysgaru'r Gymru Gymraeg oddi wrth yr unig sylfaen economaidd a fedr ei chynnal dan y drefn gyfalafol. Ni olyga ychwaith y byddwn yn ymatal rhag collfarnu'r tueddiadau mewnblyg, gor-wlatgar a gwrth-Seisnig hynny a geir yn y Mudiad Cenedlaethol.

Wrth y gwlatgarwyr diffuant hynny sy'n dymuno "oes y byd i'r Iaith Gymraeg" ond yn ymwrthod â Sosialaeth am amryfal resymau, rhaid inni ddatgan fel a ganlyn:

*"Dyfodol pitw sydd i'r Gymraeg dan Gyfalafiaeth. Y gorau y gellir ei obeithio yw iddi ymlusgo ymlaen tua'i thranc, rywbryd yn gynnar yn y ganrif nesaf, yn asgwrn y gynnen rhyngddoch chi â'r fân-fwrgeisiaeth ddi-Gymraeg, â'i phangau olaf yn cael eu lleddfu gan nawdd crintachlyd y Llywodraeth i'r Ysgolion Meithrin, yr Eisteddfod Genedlaethol, yr Urdd a rhaglenni Eingl-Americanaidd yn Gymraeg.*

*Dim ond cyfundrefn economaidd sy'n bodoli er mwyn diwallu anghenion a dyheadau cymdeithas yn ei chrynswth, ac nid er mwyn chwyddo elw dyrnaid dethol, all achub y Gymraeg, felly oni bai eich bod chi'n barod i ymuno â ni yn y frwydr i sefydlu cyfundrefn o'r fath i wasanaethu cenedl y Cymry, 'waeth ichi roi'r gorau i'ch pwyllgora, a'ch cynadledda, a'ch eisteddfota, a'ch llenydda, a'ch ymboeni dirdynnol, beunyddiol ynglŷn â Thynged yr Iaith, a mwynhau'r swydd a'r statws a'r safon byw breiniol a roddodd y Wladwriaeth Brydeinig ichi."*

## Gwleidyddiaeth Flaengar

Rhaid cadw'r cysylltiadau gwerthfawr rhwng gweithwyr Cymru, Lloegr a'r Alban a ffurfiwyd yn ystod y ddau can mlynedd diwethaf a chryfhau unoliaeth aelodau cyffredin mudiad yr undebau llafur yn y dair gwlad. Y ffordd orau i sicrhau hynny fyddai ychwanegu at rym ac awdurdod Cyngor Undebau Llafur Cymru trwy roi iddo annibyniaeth ariannol a'r hawl i gynrychioli gweithwyr ac Undebau Llafur Cymru ar raddfa ryngwladol.

Nid dryllio undod y dosbarth gweithiol mo hyn, eithr argymell trefniadaeth fydd yn deg â phawb ac yn gyfrwng mwy grymus a mwy effeithiol i frwydro dros fuddiannau'r dosbarth gweithiol na'r un sydd ar gael. Cryfhau unoliaeth y gweithwyr fyddai'r canlyniad, ac nid ei ddryllio.

Ategwn bob cynnig a bwriad a fydd yn cynyddu grym a dylanwad a hunan-hyder y dosbarth gweithiol. Un o swyddogaethau'r Undebau Llafur yw hon, un sydd lawn cyn bwysiced ag yw ymgyrchu dros well cyflogau ac amodau gwaith i'w haelodau.

Ni ddylid caniatau i Wladwriaeth sy'n bod er mwyn gwarchod breiniau'r meistri ymyrryd mewn unrhyw fodd yn nhrefniadaeth nac yn nhrafodaethau mewnol yr Undebau. Ni ddylid ychwaith gyd-synio ag unrhyw bolisi cyflogau dan y drefn gyfalafol; boed i'r cyflogwyr geisio cyfyngu ar gyflogau ar eu liwt eu hunain, heb gymorth eu gwladwriaeth.

Rhaid gwrthwynebu pob rhagfarn a difreiniad oherwydd hil, crefydd neu ryw, a hynny'n ddigyfaddawd. Teilynga safle israddol merched mewn cymdeithas fwy o ofod o lawer nag a ganiateir yma. Bu'r gorthrwm a ddioddefwyd ganddynt yn arbennig o lym dan y drefn gyfalafol ac yn un o'r ffactorau a sicrhaodd barhad y drefn honno gyhyd.

Yn wir, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwaethygodd yr ecsploetiaeth hon, gan fod yn rhaid i filiynau o ferched bellach weithio'n uniongyrchol i'r cyfalafwyr, er mwyn diogelu safon byw eu teuluoedd, yn ogystal â derbyn rôl economaidd draddodiadol y fenyw, sef gweini ar weithwyr gwrywaidd a magu teuluoedd. Gwelir yn eglur pam fod y rheidrwydd hwn, o ystyried y tabl isod, ble dangosir faint o amser y

mae'n rhaid i weithiwr gwaith-llaw cyffredin (gyda gwraig a dau blentyn) ei weithio i ennill digon i allu prynu anghenion wythnosol bywyd:

| **Eitem** | NIFER Y MUNUDAU RAID EU GWEITHIO I DALU AM YR EITEMAU | | |
| --- | --- | --- | --- |
| | 1945 | 1976 | +/− |
| Rhent wythnosol tŷ cyngor (ar gyfartaledd) | 386 | 260 | −126 |
| Taliad arwystl wythnosol (ar gyfartaledd) | 464 | 750 | +286 |
| 6 phwys o gig eidion (syrlwyn) | 260 | 430 | +170 |
| 2 bwys o bysgod ffresh | 73 | 79 | +6 |
| 9 pwys o datws | 23 | 55 | +32 |
| 5 torth fawr | 40 | 55 | +15 |
| 20 peint o lefrith | 200 | 100 | −100 |
| 1 cant o lo | 93 | 106 | +13 |
| 4 galwyn o betrol | 205 | 170 | −35 |

(Ffynhonnell: Atebiad Seneddol Ysgrifenedig, 3/3/77).

Y mae'n amlwg mai'r rhesymau pennaf pam nad yw safonau byw pobl gwledydd Prydain wedi dirywio'n sylweddol yw bod gwrywod yn gweithio rhagor o or-amser a bod gan lawer mwy o fenywod swyddi y tu allan i'r cartref yn ogystal ag ynddo.

## Athroniaeth y Chwyldro

"Ni ellir mudiad chwyldroadol heb athroniaeth chwyldroadol," ebe Lenin.

Y cam cyntaf tuag at lunio'r cyfryw athroniaeth ar gyfer Cymru fyddai creu'r synthesis y cyfeiriwyd ati gan Brian Davies mewn erthygl yn y cylchgrawn "**Planet**" (rhif 37/38):

*"Ar y naill law, felly, ceir rhyng-genedlaetholdeb chwyldroadol, ddosbarth-gweithiol, heb unrhyw ymwybyddiaeth o gwbl o'r hunaniaeth Gymreig, ac ar y llall ymwybyddiaeth genedlaethol sy'n ymwrthod yn llwyr â phrofiadau hanesyddol ei dosbarth gweithiol ei hun, ac felly â gwleidyddiaeth y dosbarth hwnnw. Buasai rhyw fath ar synthesis yn fuddiol."*

Mewn geiriau eraill, dylai Sosialwyr Cymru defnyddio'r technegau Marcsaidd i ddadansoddi a dehongli hanes eu gwlad, gan osod eu

Sosialaeth yng nghyd-destun hanes Cymru (a hanes y byd, wrth gwrs). Dylent fanteisio ar bob cyfle i ledaenu ffrwyth eu hymchwil a'u hastudiaethau ymhlith y dosbarth gweithiol, a dylai'r rheini ohonynt sydd mewn swyddi academaidd, gweinyddol neu broffesiynol gymryd eu dysgu gan y gweithwyr am natur, dulliau, gwersi ac oblegiadau Cyfalafiaeth yn ei chynhyrchfannau.

## Y Ffordd Ymlaen

Credwn y bydd llawer o bobl — yn enwedig o blith y to ifanc, a chynifer ohonynt yn gorfod dewis rhwng caethwasiaeth gyflogedig, ymfudo, neu'r dôl — yn cytuno i raddau pell iawn â syniadau y bamffled hon. Credwn hefyd bod llu o bobl yng Nghymru yn ysu am gael brwydro o ddifrif dros Sosialaeth a thros barhad y Genedl, a bod miloedd mwy y gellid eu hennill atynt.

Di-fudd fyddai inni lunio'r ddogfen hon heb gynnig ffordd ymlaen ar ei diwedd. Cyflwynwn felly amcanion y gellir ymgyrchu drostynt y tu fewn i'r pleidiau gwleidyddol sy'n bod yng Nghymru ar hyn o bryd. Ond yn bwysicach, yn ein tyb ni, argymellwn sefydlu mudiad newydd — un dros-dro, o bosib' — i ddod â phobl o'r un dueddfryd a'r un daliadau at ei gilydd, sef Mudiad Sosialaidd Gweriniaethol Cymru.

# MUDIAD SOSIALAIDD GWERINIAETHOL CYMRU

Rhaid gweithredu ar fyrder i sefydlu mudiad gwleidyddol yng Nghymru a fydd yn cyfuno'r ymgyrchoedd dros hawliau a dyfodol cenedl y Cymry a Sosialaeth ryng-genedlaethol.

Byddai Mudiad Sosialaidd Gweriniaethol Cymru'n aduno sosialwyr a chenedlaetholwyr y Chwith sy'n aelodau o'r Blaid Lafur, Plaid Cymru a rhai grwpiau gwleidyddol eraill, yn ogystal ag aelodau o'r garfan helaeth honno, a anwybyddir yn rhy aml, nad yw'n perthyn i na phlaid na mudiad.

Prif amcanion Mudiad o'r fath fyddai grymuso hunan-hyder y Cymry, dinoethi natur adweithiol Prydeindod, ennyn ysbryd milwriaethus ymhlith cenedlaetholwyr a sosialwyr ac hyrwyddo cydweithrediad rhyngddynt. Gan hynny, argymellwn fod **MUDIAD**

**SOSIALAIDD GWERINIAETHOL CYMRU** yn arddel y rhaglen wleidyddol ac addysgol a ganlyn:

* Ymgyrchu i sefydlu **GWERINIAETH SOSIALAIDD** i Gymru, ble y ceir rheolaeth ddemocrataidd ar ddiwydiant, adnoddau naturiol, tir a masnach gan bobl Cymru.

* Hyrwyddo ac adfer yr iaith Gymraeg; trechu casáwyr yr Iaith a gwrthwynebu gwrth-Seisnigrwydd yn ffyrnig yr un pryd.

* Amddiffyn yr Undebau Llafur a gwarchod safon byw y bobl; cynyddu democratiaeth fewnol yr Undebau a throi Cyngor Undebau Llafur Cymru'n Gyngres Lafur nerthol ac annibynnol.

* Gwrth-dystio a brwydro yn erbyn pob ffurf ar hiliaeth. Dim Llwyfan i Ffasgaeth!

* Tanseilio a dymchwel cyfundrefn gyfreithiol wyrdroedig Lloegr yng Nghymru a rhoi pen ar gynllwynion Wladwriaeth yn erbyn sosialwyr, undebwyr, aelodau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg a chefnogwyr mudiadau hawliau sifil.

* Rhoi terfyn ar bresenoldeb enfawr Lluoedd Arfog Prydain a NATO ar dir Cymru; gwrth-dystio yn erbyn recriwtio gan y Fyddin Brydeinig; rhoi'r hawl i bobl Iwerddon penderfynu dyfodol eu gwlad yn ei chrynswth.

* Dangos i bobl Cymru mai dim ond Sosialaeth a all warantu cyflogaeth lawn i bawb ac mai hi'n unig a fedr ddefnyddio'r technolegau modern i ryddhau'r ddynoliaeth, trwy gynllunio'u datblygiad a sicrhau bod amser hamdden yn cael ei ddosbarthu'n deg; deil Cyfalafiaeth, hyd y diwedd, i ddefnyddio pob dyfais a darganfyddiad newydd i chwyddo elw, gan achosi mwy o annhegwch ac anhrefn o'r herwydd.

Ni ddylai **MUDIAD SOSIALAIDD GWERINIAETHOL CYMRU** fynnu bod ei aelodau'n cefnu ar y pleidiau y maent yn perthyn iddynt eisioes os oes dichon hyrwyddo'r amcanion uchod yn rhengoedd y pleidiau hynny ac ennill rhagor o gefnogaeth i'r Mudiad. Ni ragwelir, felly, y bydd y Mudiad yn ymladd etholiadau nac yn datgan cefnogaeth i unrhyw blaid neu bleidiau arbennig, eithr dylai drefnu a chefnogi raliau a gwrthdystiadau, cynnal dosbarthiadau addysgol, ysgogi a noddi ymchwil, a chyhoeddi llenyddiaeth wleidyddol. Yn anad dim dylai'r Mudiad gysylltu a chyfathrachu â mudiadau sosialaidd a mudiadau cenedlaethol blaengar mewn gwledydd eraill, i fynegi mewn modd diriaethol ac ymarferol ei argyhoeddiad fod y frwydr dros Ryddid yn un fyd-eang.

Ein nod yw sefydlu Gweriniaeth Sosialaidd i Gymru, ac fe'n hysbrydolir gan y weledigaeth a ddatganwyd gan Keir Hardie mewn araith yn Nowlais ar Hydref 14, 1911:

*"Pobl Cymru yn ymladd i adfeddianu tir Cymru — dosbarth gweithiol Cymru yn dod i feddianu y mwnfeydd a'r ffwrneisiau, a'r ffyrdd haearn a'r*

*gweithfeydd mawrion cyhoeddus yn gyffredinol, ac yn gweithio fel cymrodyr, nid er budd cyfran-ddalwyr, ond er lles pob dyn a dynes a phlentyn o fewn eich terfynau. Dyna'r math o genedlaetholdeb y mae arnaf fi eisiau ei gael; a phan ddaw hyny, fe gawn weld y Ddraig Goch yn addurno Baner Goch Sosialaeth, arwydd cyd-genedlaethol symudiad Llafur drwy'r holl fyd."*

(Trosiad gan "Niclas y Glais,"
T.E. Nicholas, yn "**Y Genhinen**")

Trwy ymgyrchu dros Weriniaeth Sosialaidd, byddai pobl Cymru'n gyfrannog yn yr ymgyrch i sefydlu trefn ryngwladol newydd — sef Sosialaeth — a fydd yn anrhaethol fwy dynol, fwy democrataidd, fwy aml-weddog ac effeithiol nag unrhyw drefn a'i rhagflaenodd.

Am y tro cyntaf erioed, bydd y byd yn perthyn i'r ddynoliaeth gyfan ac nid i gyfundrefn a grewyd, er eu budd a'u lles hwy eu hunain, gan ddyrnaid o ddynion di-dostur a di-egwyddor.

Gareth Miles
Robert Griffiths
*Pontypridd, Gorffennaf 1979.*

*Gwahoddir sylwadau a beirniadaethau ar y bamffled hon gan yr awduron, a dylid eu hanfon at: 33 Lochaber Street, Plasnewydd, Caerdydd.*




cyhoeddiadau "Y Faner Goch" 21 Howard Gardens, CAERDYDD